



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Archwilio Cymunedau

Dyddiad: Dydd Gwener, 19 Hydref
2012

Rhif Union: 01824 712554

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU, DYDD IAU, 25 HYDREF 2012** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I DDOD I'R RHAN YMA O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O FUDDIANNAU

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w drafod yn y cyfarfod yma.

3 MATERION BRYN YN ÔL CYTUNDEB Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 12)

I dderbyn cofnodion y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar ddydd lau, Medi 13^{eg}, 2012 (copi'n amgaeedig)

5 ADOLYGIAD O DORRI GWAIR LLEINIAU GLAS PRIFFYRDD 2012 (Tudalennau 13 - 16)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd a Seilwaith ar y Cyd (copi'n amgaeedig) a oedd yn adolygu'r rhaglen dorri gwaith ar gyfer 2012, ac yn asesu effeithiolrwydd yr argymhelliad a roddwyd ger bron gan y Pwyllgor ar gyfer tymor 2012.

9.35 a.m.

6 PARATOI AR GYFER CYNNAL DROS Y GAFAF, TYMOR 2012-2013 (Tudalennau 17 - 20)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd a Seilwaith ar y Cyd (copi'n amgaeedig) a oedd yn nodi'r paratodau ar gyfer Rhaglen Gynnal Gaeaf 2012/2013.

10.10 a.m.

TORIAD

7 CYNNYDD GYDA GWAITH CYNNAL CYFALAF PRIFFYRDD A GWAITH SEILWAITH CLUDIANT MAWR (Tudalennau 21 - 30)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd a Seilwaith ar y Cyd (copi'n amgaeedig) a oedd yn nodi cynnydd y rhaglen gynnal priffyrdd, ac yn amlinellu'r mecanwaith a'r ffrydiau ariannu potensial ar gyfer buddsoddiad seilwaith ar raddfa fawr yn Sir Ddinbych.

10.55 a.m.

8 DOD Â CHYNLLUNIO'N NES AT Y GYMUNED (Tudalennau 31 - 54)

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Adfywio a Gwasanaethau Rheoleiddiol (copi'n amgaeedig) a oedd yn cyflwyno'r cynigion i sefydlu safonau ar gyfer ymgynghori cynllunio ac ymgysylltu cymuned yn y broses gynllunio.

11.30 a.m.

9 RHAGLEN WAITH CRAFFU

I ystyried adroddiad gan y Cydlynnydd Craffu (copi'n amgaeedig) yn ceisio adolygiad o flaenraglen waith y pwyllgor ac yn diweddarau aelodau ar faterion perthnasol.

12.05 p.m.

10 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

I dderbyn unrhyw ddiweddariadau gan gynrychiolwyr y Pwyllgor ar wahanol Fyrddau a Grwpiau'r Cyngor

AELODAETH

Y Cynghorwyr

James Davies
Peter Arnold Evans
Carys Guy-Davies
Huw Hilditch-Roberts
Rhys Hughes
Win Mullen-James

Bob Murray
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Huw Williams

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cyngorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR ARCHWILIO CYMUNEDAU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, TŶ RUSSELL ar ddydd Iau, 13 Medi 2012 am 10.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr James Davies, Carys Guy-Davies, Huw Hilditch-Roberts (Cadeirydd), Win Mullen-James, Bob Murray, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams a/ac Huw Williams
Mynychodd y Cynghorydd Hugh Evans fel sylwedydd

HEFYD YN BRESENNOL

R Maxwell (Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol) a/ac Hywyn Williams (Corporate Director: Communities and Learning) a Tom Booty (Rheolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen) Rheolwr Rheoli Datblygiad (PM), Cydlynnydd Craffu (RE) a Swyddog Gweinyddol (CW).

Mynegoddy Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor eu llongyfarchiadau i'r Cynghorydd J.M. Davies ar ei briodas yn ddiweddar a chrosawu'r Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymuned i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor.

Cyn y cyfarfod roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ymweld â'r safleoedd allweddol a oedd yn gysylltiedig â Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Rhys Hughes

2 DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol na rhai sy'n rhagfarnu.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryd dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar ddydd Iau, 16eg Gorffennaf 2012.

***PENDERFYNWYD** derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

5 FFRWD WAITH ADFYWIO GORLLEWIN Y RHYL

Roedd copi o adroddiad gan Reolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen, a oedd yn rhoi diweddariad ar y cynnydd o ran cyflawni Ffrwd Waith Adfywio Gorllewin y Rhyl yn Strategaeth Adfywio'r Rhyl yn Symud Ymlaen, y goblygiadau ariannol a'r cynnydd neu'r rhagolygon o ran gwireddu manteision, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Er mwyn cyflawni'n effeithiol, roedd gwaith Strategaeth Adfywio'r Rhyl yn Symud Ymlaen wedi ei drefnu mewn ffrydiau gwaith:-

- Ardal Adfywio Gorllewin y Rhyl
- Twristiaeth a'r Llain Arfordirol
- Manwerthu a Chanol y Dref

Roedd Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl yn barhad o'r gwaith parhaus yng Ngorllewin y Rhyl dan Ardal Adfywio Strategol Arfordir Gogledd Cymru. Amlinellwyd amcanion a manteision y Prosiect yn yr adroddiad, ynghyd â chyfrifoldebau Bwrdd y Prosiect Gwella ar gyfer cyflawni'r prosiect. Esboniodd Rheolwr y Rhaglen y byddai delio â'r materion a oedd wedi bodoli ers amser maith yn yr ardal yn helpu creu argraff fwy cadarnhaol o'r dref yn gyffredinol a thrwy hynny gael manteision adfywio mwy pell-gyrhaeddol. Trwy greu cymuned mwy cytbwys byddai'r prosiect yn lleihau amddifadiad yn yr ardal, sef un o ganlyniadau allweddol y flaenoriaeth. Byddai hefyd yn hybu hyder y sector preifat yn y Rhyl ac yn ysgogi buddsoddiad pellach yn y sector preifat a hyder trwy greu swyddi newydd, cyfleoedd busnes a hybu twristiaeth.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr angen i gydnabod a delio â'r gwendidau a adnabuwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei Hadroddiad Gwella Blynyddol ar y Cyngor, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2012, a nododd fylchau ym mecanwaith a chefnogaeth y Cyngor tuag at y Rhaglen.

Cyfeiriodd Rheolwr y Rhaglen yr aelodau at yr adroddiad a'r atodiadau cysylltiedig a oedd yn manylu sut byddai'r prosiect yn cael effaith uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol newydd arfaethedig, y costau tebygol a'r ffrydiau ariannu, y risgiau a adnabuwyd mewn perthynas â'i gyflawni, a'r cyfathrebu a'r gwaith ymgynghori a ymgwymerwyd gyda'r gymuned yn yr ardal. Pwysleisiwyd bod y cyllid wedi ei ddyrannu'n benodol ar gyfer Prosiect Gwella Tai Gorllewin y Rhyl, ac na ellid ei ddefnyddio y tu allan i'r Rhyl nac ar brosiectau amgen. Cyfeiriwyd at Floc 1, y Parc Trefol, a oedd yn golygu gwednewid yr ardal yn ardal werdd. Mynegwyd pryder y gallai'r cyfnod ar ôl cwblhau'r prosiect fod â goblygiadau ariannol mewn perthynas â chynnal a chadw'r man gwyrdd, a byddai angen delio â hyn gyda'r datblygwyr gan y byddai opsiynau posibl a chyfrifoldebau yn elfen allweddol yn y broses o ddylunio a chynllunio. Hysbyswyd yr Aelodau bod canllawiau cynllunio atodol drafft wedi eu cyhoeddi a oedd yn amlinellu datblygiad yr ardal yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn, esboniodd Rheolwr y Rhaglen bod cytundeb wedi ei lunio, gyda Chymdeithas Tai Clwyd Alun yn unig, y byddai pobl a oedd yn byw yn ardal y prosiect yn cael lefel o flaenoriaeth mewn perthynas â'r rhestr dai, er mwyn delio ag amserlenni.

Pwysleisiodd y Cynghorydd J.M. Davies bwysigrwydd yr angen i newid syniad pobl ledled y DU ynglŷn â'r Rhyl, ac arwyddocad cael atyniad mawr i'r dref i ddenu ymwelwyr i'r Rhyl. Cadarnhaodd Rheolwr y Rhaglen bod gwaith wedi ei wneud ar y cyd gyda'r Pennaeth Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden i ddelio â hyn trwy annog buddsoddiad sector preifat i'r dref a chafwyd peth llwyddiant arwyddocaol eisoes gyda lefel uchel o diddordeb o'r tu allan eisoes yn cael ei dangos yn y dref. Esboniodd bod Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio gyda'i phartner strategol Alliance Leisure i geisio mapio digwyddiadau priodol a darparu cyfleusterau ar gyfer nawr ac i'r dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys y posibilrwydd o ailddatblygu a disodli'r Heulfan. Cyfeiriodd y Cynghorydd W. Mullen-James at lwyddiant digwyddiadau a gynhaliwyd yn y Rhyl yn ddiweddar a'r adborth cadarnhaol a gafwyd gan y sawl a fynychodd.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, pwysleisiwyd y materion canlynol:-

- Pwysigrwydd marchnata'r Rhyl ledled y DU ac i gynulleidfa dramor;
- Pwysigrwydd cysylltu prosiectau â'i gilydd, gyda'r rhaglen adfywio economaidd ehangach ar gyfer y Sir, ac ardal Gogledd Cymru yn gyffredinol – yr angen i sicrhau bod prosiectau a blaengareddau yn ategu a chefnogi ei gilydd;
- Yr angen i greu a denu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy gyda sgiliau a chyflog da i ardal y Rhyl; a'r
- Angen i wahaniaethu ac esbonio amcanion cyffredinol a chanlyniad cyflawniad prosiectau ar gyfer y Rhyl a bod yn glir ar y weledigaeth gynaliadwy ar gyfer y dref a'r ardal o gwmpas

Bu i'r Pwyllgor:

BENDERFYNU – yn amodol ar y sylwadau uchod, derbyn yr adroddiad a chydabod sylwadau'r Aelodau.

6 FFRWD WAITH MANWERTHU A CHANOL Y DREF

Roedd copi o adroddiad gan Reolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen, a oedd yn rhoi diweddariad ar Ffrwd Waith Manwerthu a Chanol Tref y Rhyl yn Strategaeth Adfywio'r Rhyl yn Symud Ymlaen, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu cynnydd o ran gweithredu Ffrwd Waith Manwerthu a Chanol y Dref yn y Strategaeth, ei goblygiadau ariannol a'r cynnydd neu'r rhagolygon o ran gwireddu manteision. Roedd cynnydd y ffrwd waith wedi ei fonitro gan Fwrdd Rhaglen Cymdogaethau a Lleoedd y Rhyl yn Symud Ymlaen. Cyfeiriwyd yn benodol at y prosiectau allweddol canlynol au harwyddocad:

- Ailwampio'r Orsaf Bysus.
- Penodi Rheolwr Canol y Dref.
- Datblygiad Swyddfa Bee and Station.
- Costigans.
- Marchnad y Rhyl.
- Prosiectau a gweithgareddau eraill.

Esboniwyd mau ffrwd waith canol y dref oedd un o'r rhai a oedd wedi ei diffinio leiaf o ran cyfeiriad a strategaeth gyffredinol. Pwysleisiwyd yr angen i ddatblygu gweledigaeth glir ar gyfer canol y dref ac amlinellwyd agwedd bosibl tuag at y strategaeth ar gyfer Canol Tref y Rhyl yn yr adroddiad. Cyfeiriwyd at y ffaith y byddai'r ffrwd waith yn cefnogi cyflawni Blaenoriaeth Gorfforaethol newydd arfaethedig Datblygu'r Economi Lleol a'n Cymunedau, gan mai prif nod y ffrwd waith oedd cynyddu nifer ymwelwyr â chanol y dref a chreu mwy o gyfleoedd busnes a swyddi yn y sector twristiaerth.

Hysbyswyd yr Aelodau bod nifer o feysydd gwasanaeth yn chwarae rhan yn y cynlluniau, yn amrywio gyda natur y prosiect. Roedd meysydd gwasanaeth allweddol a oedd yn cael mewnbwn rheolaidd ac yn chwarae rhan yn y cynlluniau adfywio yn cynnwys y Gwasanaethau Hamdden, Parth Cyhoeddus, Gwasanaethau Eiddo a Chynllunio. Pwysleisiwyd, er mwyn cael canol y dref a oedd yn llwyddiannus, bod angen cydnabod a delio â nifer o faterion a risgiau, ac roedd y rhain wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad.

Pwysleisiodd yr Aelodau yr angen i wella'r farchnad gyflogaeth bresennol yn yr ardal a sicrhau bod datblygu'r prosiectau yn cynnwys rhagolygon gwaith ar gyfer trigolion lleol yn y gymuned. Cyfeiriodd Rheolwr y Rhaglen at ddatblygiad arfaethedig safle'r Honey Club, y rhagwelwyd y byddai'n darparu rhwng 30 a 40 swydd yn yr ardal. Hysbysodd y Pwyllgor bod Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio gyda'r datblygwr, ac yn parhau i weithio gyda'r mudiad partner Strategaeth Dinas y Rhyl, a oedd yn darparu hyfforddiant i ddatblygu'r sgiliau a oedd eu hangen i ddiwallu gofynion cyflogaeth buddsoddwyr. Cyfeiriwyd at y datblygiad manwerthu newydd ym Mhrestatyn a sefydliad academi sgiliau manwerthu newydd ar y cyd â'r Ganolfan Byd Gwaith. Byddai darpar weithwyr lleol yno yn cael eu hyfforddi i gael y sgiliau a'r cymwysterau hanfodol yn barod ar gyfer gwaith posibl yn y dyfodol. Cytunodd yr Aelodau gyda'r farn a fynegwyd y dylai effaith ailddatblygu yn y Rhyl a Phrestatyn fynd gyda'r cynllun adfywio ar gyfer gweddill y Sir.

Cyfeiriwyd at yr effaith andywol bosibl ar y Rhyl yn deillio o adleoli siop Marks and Spencer i Brestatyn. Cytunodd yr Aelodau ei bod yn hanfodol annog manwerthwyr allweddol i fuddsoddi yn y Rhyl, er mwyn galluogi i'r dref ddod yn lleoliad manwerthu pwysig ac yn atyniad i ymwelwyr o'r tu allan i'r ardal. Pwysleisiwyd hefyd y byddai angen i unrhyw ddatblygiad neu fuddsoddiad o'r fath fod yn gynaliadwy er mwyn sicrhau cyflawniad hirdymor yr amcanion ar gyfer yr ardal.

Mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd y swyddogion y byddai pryderon a fynegwyd ynglŷn â'r argraff negyddol a grëwyd gan ddiffyg staff ar Orsaf y Rhyl ar adegau gwahanol, yn enwedig gyda'r nos, yn cael eu cyfleu i Network Rail.

Tra bod haeddiant i gynnig trethi busnes is er mwyn denu buddsoddiad o'r tu allan neu annog mentrau busnes newydd, roedd consensws barn y dylid cynnig consesiynau neu drethi busnes is ledled y Sir, ac nid mewn un ardal benodol yn unig. Cadarnhaodd Rheolwr y Rhaglen bod cyfleoedd datblygu mewn perthynas â safle Queen's Market. Fodd bynnag, er bod Sir Ddinbych yn hwyluswr, roedd y safle mewn meddiant preifat ac yn yr hinsawdd economaidd farwaidd hon, roedd datblygwyr yn nerfus o ran buddsoddi. Bu i'r Pwyllgor:

BENDERFYNU – yn amodol ar y sylwadau uchod, gydnabod y llwyddiant a gafwyd hyd yma.

7 FFRWD WAITH TWRISTIAETH A'R LLAIN ARFORDIROL

Roedd copi o adroddiad gan Reolwr Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen, a oedd yn rhoi diweddariad ar weithredu'r Ffrwd Waith Twristiaeth a'r Llain Arfordirol yn Strategaeth Adfywio'r Rhyl yn Symud Ymlaen, y goblygiadau ariannol a'r cynnydd neu'r rhagolygon o ran gwireddu manteision, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Roedd y Llain Arfordirol o Harbwr Foryd i Splash Point wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau twristiaeth yn y Rhyl ers amser. Yr agwedd oedd adeiladu ar enw'r Rhyl fel cyrchfan i'r teulu ac amlinellwyd manylion cynigion i'r dyfodol a ffocws byrdymor ar gyfer y Pwyllgor. Roedd cynnydd ar y ffrwd waith yn cael ei fonitro gan Fwrdd Rhaglen Cymdogaethau a Lleoedd y Rhyl yn Symud Ymlaen.

Cyfeiriwyd yn yr adroddiad a'r atodiadau cysylltiedig at y prosiectau allweddol a oedd yn rhan o'r ffrwd waith hon, sef:

- Ailwampio Sinema Apollo.
- Gwaith Gwarchod y Glannau yn y Rhyl.
- Harbwr Foryd a'r Bont – a oedd yn cynnwys pont i gerddwyr a beicwyr, sgwâr cyhoeddus, adeilad ar y cei a muriau cei newydd.
- Ailwampio'r Honey Club.
- Ocean Plaza.
- Tŵr Awyr y Rhyl.
- Prosiectau a gweithgareddau eraill.
- Cynlluniau i'r Dyfodol.

Byddai'r ffrwd waith hon yn cyfrannu tuag at y Flaenoriaeth Gorfforaethol newydd arfaethedig, Datblygu'r Economi Lleol a'n Cymunedau, a phrif amcan y rhaglen yw cynyddu nifer ymwelwyr a chreu mwy o gyfleoedd busnes a swyddi yn y sector twristiaeth. Nid oedd gan y ffrwd waith twristiaeth gyllideb benodol, gyda chyllid wedi ei ddyrannu i brosiectau penodol, gan ddefnyddio yn bennaf ffynonellau ariannu allanol, ac roedd y gwaith yn cael ei fonitro yn ôl prosiect. Roedd mewnbwn rheolaidd a chyfraniad tuag at at y cynlluniau adfywio yn cael eu derbyn gan y Gwasanaethau Hamdden, Parth Cyhoeddus, Gwasanaethau Eiddo a Chynllunio.

Hysbyswyd y Pwyllgor, er mwyn creu economi twristiaeth cryfach a delio â delwedd negyddol y Rhyl, y byddai angen cydnabod a delio gyda nifer o faterion a risgiau, a amlinellwyd yn yr adroddiad.

Cyfeiriwyd at yr adroddiad a gynhwyswyd fel Atodiad 4, a oedd yn rhoi gwybodaeth ar sefyllfa bresennol a dyfodol Tŵr Awyr y Rhyl. Rhoddodd Rheolwr y Rhaglen grynoded o'r adroddiad a thrafododd yr Aelodau y 3 prif opsiwn, a oedd yn cynnwys:-

Opsiwn 1 – Ailwampio ac adsefydlu fel reid.

Opsiwn 2 – Tynnu i lawr a symud ymaith.
Opsiwn 3 – Cadw'r strwythur ar gyfer defnydd newydd.

Roedd strwythur y tŵr yn gadarn a oedd yn rhoi opsiwn i'w gadw. Opsiwn 3, i gadw'r strwythur ar gyfer defnydd newydd, oedd yr Opsiwn a argymhellwyd gan y swyddogion yn y adroddiad, a rhagwelwyd y byddai hyn yn ffurfio sylfaen adroddiad i'r Cabinet ym mis Hydref 2012. Gofynnwyd i Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl nodi pa un o'r opsiynau manwl, neu opsiynau amgen, yr oeddynt hwy yn eu hystyried fel y rhai mwyaf priodol ar gyfer y tŵr. Cyfleodd y Cyngorydd W. Mullen-James y farn a fynegwyd gan Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl, yn ei gyfarfod y noson flaenorol, ac esboniodd bod y Grŵp o blaid Opsiwn 1.

Trafodwyd y materion canlynol mewn perthynas ag opsiynau ar gyfer y tŵr i'r dyfodol:-

- Ni ellid cyfiawnhau'r goblygiadau ariannol arfaethedig ar gyfer adfer y tŵr fel reid weithredol gan y byddai'n anodd llunio achos busnes o blaid yr opsiwn hwn
- Dylid ystyried defnyddiau eraill ar gyfer y tŵr a chael opsiynau i gael cytundebau noddi
- Dylid gofyn am farn trigolion y Rhyl o ran defnyddio'r tŵr yn y dyfodol.
- Dylid ystyried hysbysebu ar gyfer cyflenwi reid olwyn fawr, o bosibl ger y Marine Lake, fel y lleolir mewn atyniadau eraill a lleoliadau i dwristiaid.
- Yr angen i ystyried yr opsiynau ehangach mewn perthynas â dyfodol y tŵr a sut byddant yn cael eu cynnwys yng Nghynllun y Rhyl yn Symud Ymlaen.

Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwyd rhoi eglurhad mewn perthynas ag agwedd, pwrpas ac amcanion Strategaeth y Rhyl yn Symud Ymlaen, a hefyd rôl Bwrdd y Rhaglen a'i gylch gorchwyl o ran cyfrifoldebau penodol. Cyfeiriodd at yr angen i gysylltu pob prosiect o fewn y cynllun ehangach ac adnabod amcanion cyffredinol o ran amcanion a thargedau a ragwelwyd. Pwysleiswyd hefyd y byddai brandio'r Rhyl yn bwysig ynghyd â'r angen i feithrin hyder er mwyn annog buddsoddiad sector preifat yn y dref.

Amlinellodd y Cadeirydd yr angen i gael neu ddenu gwesty enwog neu sefydliad tebyg i'r Rhyl. Pwysleisiodd hefyd yr angen i fonitro ac arfarnu datblygiad y prosiectau a sicrhau bod Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen yn cydgysylltu â'r rhaglen adfywio ehangach ar gyfer Sir Ddinbych.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r farn a fynegwyd gan y Cadeirydd bod y Pwyllgor yn cael adroddiadau monitro chwarterol ar Raglen y Rhyl yn Symud Ymlaen er mwyn arfarnu cynnydd y Rhaglen. Fe:

BENDERFYNWYD:-

- (a) Yn amodol ar y sylwadau uchod, derbyn yr adroddiad a chydnabod y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Ffrwd Waith Twristiaeth a'r Llain Arfordirol;*
- (b) Cyflwyno adroddiad monitro mewn perthynas â Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen i'r Pwyllgor er mwyn ei alluogi i arfarnu'r cynnydd o ran cyflawni'r Rhaglen;*
- (c) Gofyn i'r Cabinet argymhell bod cylch gorchwyl Bwrdd Rhaglen y Rhyl yn Symud Ymlaen yn cael ei ehangu i gynnwys sicrhau bod pob ymdrech yn cael ei gwneud*

fel rhan o'r Rhaglen i ddenu a chreu cyfleoedd gwaith cynaliadwy gyda sgiliau yn yr ardal;

(d) Bod yr holl brosiectau yn cysylltu gyda, yn cefnogi ac yn cydfynd â'i gilydd ar agenda adfywio ehangach ar gyfer y Sir ac ardal Gogledd Cymru gyfan, a

(e) Bod y nodau cyffredinol a'r weledigaaeth ar gyfer dyfodol cynaliadwy'r Rhyl yn cael eu hesbonio a'u cyfleu yn eang.

8 RHAGLEN WAITH CRAFFU

Roedd copi o adroddiad gan y Cydgysylltydd Craffu, yn adolygu'r Flaenraglen Waith ddrafft ar gyfer y Pwyllgor Craffu Partneriaethau ac yn rhoi diweddariad ar faterion perthnasol, wedi ei ddsbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Hysbysodd y Cydgysylltydd Craffu yr Aelodau bod ymatebion i faterion a godwyd mewn cyfarfodydd blaenorol wedi eu cynnwys yn y Briff Gwybodaeth a ddsbarthwyd ymlaen llaw.

Hysbyswyd yr Aelodau, oherwydd prinder amser, na fu modd cynnwys Canolfan Ddydd Hafan Deg ar rhestr y daith o gwmpas safleoedd allweddol. Fodd bynnag, gallai'r Aelodau ymweld â Hafan Deg trwy drefnu gyda'r swyddog mewn gofal.

Ystyriodd y Pwyllgor y Flaenraglen Waith ddrafft ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol fel y manylwyd yn Atodiad 1. Ar ôl rhoi sylw i'r nifer gorau o eitemau i'w trafod ar y rhaglen mewn cyfarfod, cytunodd yr Aelodau gynnwys y newidiadau canlyniadol ym Mlaenraglen y Pwyllgor:-

- Cytunodd y Pwyllgor y dylid cyflwyno adroddiad cynnydd ar Ffrydiau Gwaith Adfywio'r Rhyl yn Symud Ymlaen i'r Pwyllgor yn chwarterol.

- Roedd y Pwyllgor Craffu Perfformiad wedi gofyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau gymryd cyfrifoldeb am graffu ar gytundeb tenantiaid a llawlyfr drafft newydd Sir Ddinbych, gan fod yr Aelodau'n teimlo bod yr eitem yn fwy addas i gylich gorchwyl y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Cytunodd y Pwyllgor y dylid ddsbarthu adroddiad ymgynghorol yn gofyn am sylwadau a barn yr Aelodau.

Gweithgor Gostyngiadau yn y Gwasanaeth Bws – roedd y Gweithgor a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi cyfarfod ar 2il Awst 2012 ac roedd copi o nodiadau'r cyfarfod wedi ei gynnwys fel Atodiad 4 i'r adroddiad. Roedd canfyddiadau ac argymhellion y Gweithgor i'w hadrodd i'r Cabinet ar 25ain Medi, 2012.

Penodi Cynrychiolwyr y Pwyllgor ar Grwpiau a Byrddau'r Cyngor – cytunodd yr Aelodau bod y Cynghorydd W. Mullen-James yn cael ei phenodi fel cynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol, gyda'r Cynghorydd H.O. Williams yn cael ei benodi fel dirprwy gynrychiolydd ar y Grŵp. Yn absenoldeb y Cynghorydd Mullen-James byddai'r Cynghorydd Williams yn mynychu'r cyfarfod a oedd wedi ei drefnu ar 8fed Hydref 2012.

Cyfeiriodd y Cydgysylltydd Craffu at Atodiad 1 y Briff gwybodaeth a oedd yn cynnwys datganiad ar Gyd-ddarpariaeth Addysg Seiliedig ar Ffydd. Esboniodd hefyd bod sesiynau wedi eu trefnu ar 17eg a 27ain Medi, 2012 i roddi gwybodaeth i'r Aelodau ar Raglen Moderneiddio Addysg y Cyngor. Cyfeiriwyd at Atodiad 2 yr Adroddiad Gwybodaeth, Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod Cyhoedd, Prosiectau Seilwaith Mawrion: Strategaeth Gyfathrebu (Dogfen Ddrafft). Gofynnwyd i'r Aelodau anfon unrhyw farn neu sylwadau ar y strategaeth ddrafft at y Swyddog Cynllunio: Cynlluniau Ynni Adnewyddadwy.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cwsmeriaid, ar ôl cais mewn cyfarfod blaenorol, bod strategaeth ddrafft wedi ei datblygu i ddelio â phroblem baw cŵn yn y Sir. Esboniwyd bod Gweithdy wedi ei drefnu ar gyfer yr holl Gynghorwyr, ac y byddai'n cael ei gynnal ar 7fed Tachwedd, 2012.

Ar ôl trafodaeth bellach, fe:-

BENDERFYNWYD:-

- (a) yn amodol ar y newidiadau uchod, cymeradwyo'r Flaenraglen Waith fel y nodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad, a*
- (b) penodi'r Cynghorydd W. Mullen-James yn gynrychiolydd y Pwyllgor ar y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol gyda'r Cynghorydd H.O. Williams yn cael ei benodi fel dirprwy gynrychiolydd.*

9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGOR

Esboniodd y Cynghorydd W. Mullen-James nad oedd wedi medru mynychu cyfarfod Bwrdd Rhaglen Cydweithredu Conwy a Sir Ddinbych ar 12fed Medi 2012 oherwydd ei bod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.

| | |
|-----------------------------------|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 25 Hydref 2012 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Stuart Davies, Cyd Bennaeth Priffyrdd ac Isadeiledd. |
| Awdur yr Adroddiad: | Tim Towers, Rheolwr Adain (Gwasanaethau Rhwydwaith) |
| Teitl: | Adolygiad o Dorri Lleiniau Glas y Priffyrdd 2012 |

1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Adolygu'r rhaglen torri glaswellt ar gyfer 2012 ac asesu a oedd yr argymhellion a roddwyd gerbron gan y Pwyllgor ar gyfer tymor 2012 yn effeithiol.

2. Beth yw'r rheswm am lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi gwybodaeth mewn perthynas ag asesiad y rhaglen torri glaswellt eleni a chydymffurfiaeth y contractwr â gofynion y contract. Galluogi ar gyfer ffurfioli'r argymhellion mewn perthynas â rhaglen y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau bod cymunedau Sir Ddinbych yn daclus ac yn ddiogel i drigolion, busnesau ac ymwelwyr.

3. Beth yw'r Argymhellion?

i) Bod yr Aelodau'n cytuno y bu'r gyfundrefn torri gyffredinol a roddwyd ar waith ar gyfer 2012 yn llwyddiannus a'u bod yn cefnogi'r un trefniadau torri glaswellt ar gyfer 2013.

ii) Bod yr Aelodau'n cefnogi adolygiad o drefniadau'r Contract presennol i swyddogion ail-dendro os ydy hynny'n briodol.

4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Y Gyfundrefn Torri Glaswellt

4.1.1 Mae'r Adran Briffyrdd yn gyfrifol am dorri lleiniau glas yn ardaloedd gwledig y Sir. I bob golwg, ystyrir hyn fel holl hyd y briffordd y tu allan i'r terfyn 30 m.y.a. Tîm Tir y Cyhoedd yn y Gwasanaethau Amgylcheddol sy'n delio â'r ardaloedd yn y clymdrefi. Er mai ystyriaethau diogelwch sydd wrth wraidd y rheswm am dorri'r lleiniau gwledig, mae hyn wedi bod yn destun cryn drafod dros y blynyddoedd diwethaf. Mae newidiadau i ddeddfwriaeth a gyflwynwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 yn golygu bod yr Awdurdod yn

ystyried bioamrywiaeth ac felly'n edrych i dorri cyn lleied â phosibl. Fodd bynnag, amgyffrediad rhan weddol fawr o'r cyhoedd oedd y dylem dorri pob llain a bu'r gwaith o gydbwyso'r safbwyntiau gwrthwynebol hyn yn anodd.

- 4.1.2 O ganlyniad i gryn ddadlau a thrafod mewn nifer o gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu, penderfynwyd y byddai cyfundrefn yn cael ei mabwysiadu sy'n golygu:-

Ar y toriad cyntaf, byddai gostyngiad yn y driniaeth ar ffyrdd gwledig yn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) i'r graddau y byddai angen sicrhau lefel ddiogelwch boddhaol.

Mewn mannau eraill, byddwn yn torri ystod 1 metr o led unffurf gyda thriniaeth ehangach mewn ardaloedd eraill (cyffyrdd, lleiniau gweledd etc) er mwyn sicrhau nad oedd gweledd yn cael ei gyfaddawdu.

Cafwyd rhai heriau yn 2012 ac mae manylion y rhain yn y rhan nesaf. Gallai'r rhain fod wedi arwain at aneglurder o ran a fu'r dull hwn yn llwyddiannus ai peidio, ond ar sail adborth y cwsmeriaid, fy marn i yw bod y gyfundrefn hon wedi cyrraedd y cydbwysedd gofynnol. Cawsom ychydig iawn o gwynion y tu allan i'r AHNE ein bod ni'n torri gormod ond dylid nodi bod un sefydliad wedi cwyno nad ydym yn ufuddhau i Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig a bydd angen ymateb ar hyn. Mewn mannau eraill yn yr AHNE, rydym wedi cael ceisiadau i adolygu rhai lleoliadau a byddwn yn gwneud hyn ond ar y cyfan, teimlir bod y dull hwn wedi bodloni disgwyliadau'r cwsmeriaid.

4.2 *Materion torri glaswellt 2012*

- 4.2.1 Gwnawn ddau doriad yn ystod y tymor, gydag un yn dechrau yng nghanol mis Mai gyda'r bwriad o'i gwblhau erbyn canol Gorffennaf a'r ail un yn dechrau ar ddechrau mis Awst er mwyn ei gwblhau ym mis Hydref.
- 4.2.2 Yn dilyn proses dendro ar y cyd llwyddiannus iawn ar gyfer y prif ffyrdd yn 2010, rydym wedi ymestyn y contract i gynnwys ffyrdd heb fod yn brif rai ers y ddwy flynedd ddiwethaf. O ganlyniad, mae'r holl waith torri glaswellt bellach wedi'i wneud gan un contractwr allanol. Ym mis Hydref 2011, rhoddodd adroddiad i'r pwyllgor hwn fanylion ar rai o'r materion y daethpwyd ar eu traws llynedd o ganlyniad i'r contractwr yn cymryd dros raddau llawn y torri. Yn dilyn hynny, gweithiom gyda nhw i wella pethau; trwy sicrhau digon o adnoddau; darparu rhaglen y gellid ei rhannu gydag Aelodau a'r cyhoedd trwy'r Gwasanaethau Cwsmeriaid; gwellwyd ein goruchwyliaeth fewnol o'r contract; ac rydym yn cael diweddariadau dyddiol gan y contractwr o ran cynnydd.
- 4.2.3 I ddechrau, am wythnosau cyntaf y toriad cyntaf, aeth hyn yn dda. Cododd rhai materion o ran ansawdd y torri mewn rhai mannau ac aed

i'r afael â'r rhain yn dda ond ar y cyfan, roeddem yn gymharol hapus bod y dulliau rheoli a gyflwynwyd gennym yn gweithio. Fodd bynnag, gydag amser gwaethygodd cyflymder y cynnydd a daeth hyn yn ofid yn gyflym. Gan gyfiawnhau rhywfaint, dywedodd y contractwr fod yr haf gwlyb iawn, gyda'i gynnydd cysylltiedig mewn twf glaswellt, wedi creu problemau iddo ond erbyn diwedd mis Mehefin, roedd hi'n dod i'r amlwg na fyddai'r targedau'n cael eu bodloni. Gan fod cytundeb y contract yn un safonol ar gyfer y math hwn o waith, nid oes cosbau o ran cwblhau'r gwaith y tu allan i'r amserlenni y cytunwyd arnynt felly nid oedd llawer y gallem ei wneud yn hyn o beth.

- 4.2.4 Roedd y glaswellt hir yn arwain hefyd at adroddiadau bod ansawdd y torri'n wael a bod y llystyfiant oedd ar ôl yn creu llanastr. Gweithiom gyda'r contractwr i weld faint gellid goresgyn y mater hwn ond ychydig y gellid ei wneud. Un o'r problemau oedd bod y toriad gwirioneddol yn fân ond roedd y glaswellt a'r rhedyn hir yn cwmpo dros yr ystod a dorwyd ac felly'n gwneud y gwaith i gyd yn flêr. Nid ydym mewn sefyllfa lle gallwn gasglu'r llystyfiant a dorwyd oherwydd y cynnydd mewn cost gwaredu a'r cyfaint y byddai'n cael ei gynhyrchu, felly bu rhaid ymdrin â chwynion lle rhoddwyd hyn fel rheswm trwy alwad ffôn i esbonio.
- 4.2.5 Roedd y gyrrwyr yn rhoi gwybod i bencadlys y contractwr i ddweud pa ffyrdd oedd wedi'u gwneud er mwyn gallu anfon diweddariadau ond roedd hi'n amlwg fod y torri'n dameidiog ar lawer o'r ffyrdd culach. Pan gwestiynom hyn, roedd hi'n amlwg fod y peiriant oedd yn cael ei ddefnyddio'n rhy lydan er mwyn gwneud toriad iawn ac roedd hi'n cymryd gormod o amser i'r contractwr ddod â pheiriant llai i mewn er mwyn gallu mynd i'r afael â'r rhain. Mewn un achos, aethon nhw hyd yn oed ati i dorri'r llain â llaw oherwydd ei fod yn cymryd gormod o amser ac oherwydd bod lefel y cwynion gan gwsmeriaid mor uchel. Cwblhawyd y toriad cyntaf yn ail wythnos mis Awst yn y diwedd, dair wythnos ar ôl y dyddiad targed.
- 4.2.6 O ran ymateb y tîm Priffyrdd i'r materion hyn, rydym wedi ceisio cadw rhoi gwybod i'r cwsmeriaid trwy'r adran Gwasanaethau Cwsmeriaid o ran ble roeddem ni arni ond aeth hyn yn fwyfwy anodd wrth i'r rhaglen lithro. Yn ogystal, bu rhaid i'r goruchwylwyr dreulio cryn dipyn o amser yn trafod materion dros y ffôn neu'n mynd allan i gyfarfod â chwsmeriaid i edrych ar gwynion penodol. Mae hyn wedi amharu ar ein gallu i ganolbwyntio ar elfennau eraill y gwasanaeth trwy'r haf ond mae'n amlwg bod torri'r glaswellt yn agwedd ar ein gwaith sy'n bwysig i'r trigolion.
- 4.2.7 Gwellodd yr ail doriad tipyn ac mae'r contractwr wedi is-gontractio tipyn o'r gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau ar amser. Bu hyn yn niweidiol i ni o ran cael diweddariadau dyddiol ond mae ein goruchwylwyr wedi dal i fyny gyda'r gyrrwyr yn rheolaidd i sicrhau nad oes ffyrdd wedi'u hepgor. Mae safon y torri wedi bod yn dda hefyd ond

Ile mae'r gwaith wedi bod islaw'n lefel dderbyniol, mae'r gyrrwyr wedi'u hanfon yn ôl i'w hail-wneud - heb unrhyw gost i'r cyngor yn naturiol.

4.2.8 Yn yr wythnosau diwethaf, mae'r contractwr wedi mynd trwy broses ad-drefnu'r rheolwyr ac yn y tymor byr, mae hyn wedi creu problemau o ran parhad a chyfathrebu ond gwnaethom gyfarfod â'r tîm newydd yr wythnos diwethaf a chafwyd sicrwydd o ran sut bydd y contract yn cael ei reoli o hyn ymlaen.

4.3 *Y Contract*

4.3.1 Mae ein contract yn un safonol ar gyfer y math hwn o waith ac nid oes ynddo unrhyw gymalau cosb ariannol. Gellir rhoi gwybod i'r contractwr am fethiannau ond mae'n cael y cyfle wedyn i'w cywiro ymhen cyfnod amser a gytunwyd arno yn hytrach na cholli incwm. Cynigiwn edrych ar sut gallwn dynhau'r contract hwn yn yr wythnosau nesaf a gallai hyn olygu ein bod ni'n ei ailysgrifennu ac yn ail-dendro'r gwaith i gyd cyn y flwyddyn nesaf ond bydd hyn yn sicr o gynyddu cost y contract felly mae angen cael cydbwysedd.

4.3.2 I gloi, rydym yn datgan bod y gwelliannau yr oeddem wedi gobeithio'u cyflwyno ar ôl 2011 wedi gweithio ond nid cystal ag yr oeddem wedi'i obeithio, yn bennaf oherwydd y tywydd ofnadwy ond hefyd o ganlyniad i anawsterau pellach y mae'r contractwr wedi'u cael wrth fodloni'n hanghenion - yn enwedig mewn perthynas â'r ffyrdd culach. Hwyrach yr hoffai'r aelodau gytuno ein bod ni'n parhau â dull cyffredinol ein cyfundrefn dorri (gyda'r elfen fioamrywiaeth yn yr AHNE) ond argymhell bod swyddogion yn adolygu'r trefniadau cytundebol er mwyn gallu cyflwyno dulliau rheoli mwy o faint.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'n flaenoriaeth gwasanaeth y bydd trigolion ac ymwelwyr i Sir Ddinbych yn cael mynediad i rwydwaith ffyrdd diogel ac wedi'i reoli'n dda ac mae torri lleiniau glas yn agwedd sylfaenol ar y nod hwn.

6. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

6.1 Bu'r adborth gan y Gwasanaethau Cwsmeriaid mewn perthynas â'r cyfaint a'r math o gŵynion yn barhaus.

6.2 Bu'r adborth gan Aelodau yn agwedd reolaidd ar gyfathrebu ac mae hyn wedi profi'n ddefnyddiol wrth werthuso llwyddiant neu ddiffyg llwyddiant y newid i'r gyfundrefn torri.

6.3 Mae trafodaethau a chyswllt gyda thrydydd parti eraill yn mynd rhagddyn nhw.

7. Y Grym i wneud y Penderfyniad

Deddf Priffyrdd 1980

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|-----------------------------------|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 25 Hydref 2012 |
| Aelod Arweiniol / Swyddog: | Stuart Davies, Cyd-Bennaeth Priffyrdd a Seilwaith. |
| Awdur yr Adroddiad: | Tim Towers, Rheolwr Adran (Gwasanaethau Rhwydwaith) |
| Teitl: | Paratodau ar gyfer Gwaith Cynnal Gaeaf Tymor 2012/13 |

1. Beth yw testun yr adroddiad?

I esbonio'r paratodau ar gyfer rhaglen gynnal y gaeaf 2012 / 2013.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

I ddarparu gwybodaeth ynghylch sicrhau llwybrau mwy diogel i drigolion y sir a chadw'r sir yn agored i fusnes yn ystod tywydd garw.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod Aelodau'n cytuno bod y paratodau Cynnal Gaeaf yn ddigonol i'r amodau gaeafol yr ydym yn eu rhagweld, a bod y trefniadau wrth gefn i amodau mwy garw hefyd yn ddigonol.

4. Manylion yr adroddiad.

4.1.1 Nid ydym wedi gwneud unrhyw newidiadau i'n dull o baratoi ar gyfer gwaith cynnal y gaeaf ar gyfer 2012 / 2013. Mae nifer a maint y llwybrau graeanu yn y sir yn parhau ar 11. Yn ystod blynyddoedd blaenorol, rydym wedi ymdrin â 12 llwybr, ond wrth weithio'n agos gyda Chonwy, rydym wedi lleihau nifer y llwybrau trwy roi trefniadau trawsffiniol ar waith.

4.1.2 Er mwyn cyflawni deddfwriaeth ynghylch oriau gwaith gyrwyr, mae arnom angen lleiafswm o 33 i lenwi'r rotâu. Bydd y mwyafrif helaeth o'r rhain yn dod o'n gweithlu ein hunain, ond bydd hysbyseb yn gofyn am yrwyr dros dro yn ymddangos yr wythnos hon gan ein bod pum gyrrwr yn fyr ar hyn y bryd. Cafwyd ymateb dda i gais tebyg llynedd ac rwy'n hyderus y bydd modd penodi gweithwyr cymwys i lenwi'r swyddi.

4.1.3 Rydym eto wedi cadw gwasanaethau nifer o Gontractwyr Amaethyddol a byddant yn darparu gwasanaeth gefnogi i weddill y rhwydwaith gwledig pe ceir unrhyw eira. Roedd gan un o'r rhain y gallu i daenu halen llynedd. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn gwella'r gwasanaeth

yn arw yn ardal Llangollen a byddwn yn defnyddio hwn fel cynllun peilot gyda golwg ar ddarparu gwell gwasanaeth mewn lleoliadau eraill yn y dyfodol.

- 4.1.4 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae gennym dros 5,000 tonnall fetrig o halen naill ai mewn stoc neu'n cyrraedd erbyn diwedd Hydref. Rydym yn storio'r halen mewn tri lleoliad sef:-

Depo Cinmel, Bodelwyddan lle byddwn yn cadw dros 1500 tonnall fetrig o'r halen Safecote wedi'i drin. Bydd hwn yn cyrraedd yn ystod yr wythnos nesaf i'w ychwanegu at y 300 tonnall fetrig sydd yno eisoes.

Mae Depo Corwen ar hyn o bryd yn cadw dros 2,000 tonnall fetrig o'r halen sych traddodiadol. Dau lwybr yn unig sy'n cael eu rhedeg o'r lleoliad hwn ond gallai'r depo storio mwy o halen na'r hyn sy'n ofynnol, ac rydym wedi achub ar y cyfle i storio cymaint o halen ag sy'n bosibl fan hyn.

Mae Depo Rhuthun yn cadw tua 1500 tonnall fetrig wrth i'r gaeaf agosáu. Drwy'r haf, rydym wedi bod yn gwneud peth gwaith draenio yn y lleoliad hwn a bu mwy o oedi na'r disgwyl cyn i'r gwaith ddechrau oherwydd bu'n rhaid sicrhau caniatâd. Mae'r gwaith bellach wedi'i gwblhau, a byddwn nawr yn gosod arwyneb newydd fel bod modd stori'r halen mewn gwll amodau gan felly ymestyn oes ddefnyddiol yr halen yn ogystal â sicrhau amodau gweithio diogel. Unwaith bo'r gwaith hwn wedi'i gwblhau, byddwn yn gallu cynyddu stoc halen y sir i gyfanswm o 8,000 tonnall fetrig fel y gwnaethpwyd dros y ddau aeaf diwethaf - sy'n ein cael yn agosach at y lleiafswm stoc sy'n ofynnol yn ôl cynghor Llywodraeth Cymru.

Er hynny, mae'r 5,000 tonnall fetrig a fydd mewn stoc erbyn diwedd Hydref yn fwy na'r hyn y byddem yn ei ddefnyddio mewn gaeaf 'cyffredin'.

Mae ein cyflenwr bellach wedi adeiladu'r stoc strategol a oedd yn bodoli cyn y gaeafau eithafol blaenorol. Felly, gyda chefnogaeth ychwanegol ar gael trwy Lywodraeth Cymru, ni theimlir bod angen gofidio am gyflenwadau halen.

- 4.1.5 Dechreuodd y gwaith o greu pentyrrau halen a llenwi'r biniau halen ar ddechrau mis Hydref a bydd y gwaith wedi'i gwblhau cyn diwedd y mis. Ein bwriad yw sicrhau bod y cyflenwadau hyn yn cael eu cadw ar lefelau digonol ar ôl unrhyw achosion o dywydd garw.
- 4.1.6 Mae'r trefniadau rota arferol ar gyfer rhagweld y tywydd a goruchwylio yn eu lle gan sicrhau bod gwasanaeth 24 awr y dydd ar gael, ac mae modd ehangu ar y trefniadau hyn os yw amodau'n gofyn am hynny. Cytunwyd ar daliadau i bawb perthnasol yn dilyn trafodaethau hirfaith.

- 4.1.7 Byddwn yn defnyddio'r strategaeth gyfathrebu a ddatblygwyd dros y blynyddoedd diwethaf eto mewn cydweithrediad â'r tîm Cysylltiadau Cyhoeddus a Gwasanaethau Cwsmeriaid, gan ei bod wedi profi i fod yn arbennig o effeithiol. Caiff y strategaeth hon ei defnyddio hefyd i hysbysu'r cyhoedd os oes rhaid cau unrhyw ffyrdd neu ysgolion. Mae adroddiadau dyddiol eisoes yn cael eu hanfon yn dynodi'r gwaith am y diwrnod a'r rhagolygon am y pum diwrnod nesaf.
- 4.1.8 Petai'r tywydd yn troi'n ddifrifol iawn, yna mae gennym drefniadau wrth gefn gyda swyddogion a staff o fewn Gwasanaethau Cefn Gwlad a'r Parth Cyhoeddus a fyddai'n gallu cynorthwyo. Mae ganddyn nhw hefyd gerbydau 4x4 y gellid eu hychwanegu at ein fflyd ni.
- 4.1.9 I gloi, rydym yn teimlo ein bod wedi paratoi at y gaeaf orau ag y gallwn o fewn rheswm.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'n flaenoriaeth gwasanaeth bod trigolion ac ymwelwyr â Sir Ddinbych yn gallu defnyddio rhwydwaith o ffyrdd diogel, sydd wedi'u rheoli'n dda. Mae darparu gweithgaredd cynnal gaeaf effeithiol ac amserol yn agwedd sylfaenol o'r amcan hwn.

6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae yna gyllideb sylfaenol o ddyraniad refeniw Priffyrdd o £780,000 gydag arian pellach wrth gefn petai'r tywydd yn fwy garw na'r cyffredin.

7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Mae darparu gwasanaeth Cynnal Gaeaf bellach yn ofyniad Statudol dan Adran 41(1A) o'r Ddeddf Briffyrdd 1980 fel y'i diwygiwyd gan adran 111 o Deddf Diogelwch Rheilffyrdd a Chludiant 2003. Mater o drafodaeth yw hi i ba raddau y mae disgwyl i ni gyflawni'r gofyniad hwn, ond rydym yn derbyn bod y llwybrau graeanu a gyhoeddwyd gennym yn rhoi'r ddarpariaeth leiaf y byddai disgwyl i ni ei chyflawni. Byddai darparu'n ychwanegol at hyn yn fater o edrych ar ba adnoddau sydd ar gael, ac rydym yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda rhanddeiliaid i drafod y ffordd orau o ymdrin â hyn.

8. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

Mae cyllideb sylweddol wedi'i dyrannu i'r gwasanaeth hwn i sicrhau ein bod yn gallu ymdopi'n iawn gyda thywydd garw. Mae yna hefyd arian ar wahân wrth gefn ar gyfer problemau arbennig o ddifrifol, er nad ydym wedi tynnu ar yr arian hwn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

9. Beth yw'r risgiau, ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Fel y nodwyd yn Adran 7 uchod, mae yna ddyletswydd statudol ar yr Awdurdod a gallai'r Awdurdod fod yn atebol pe byddai'n methu cyflawni'r cyfrifoldeb hwn. Gallai nifer o bethau fynd o'i le (gyrwyd yn methu troi fyny, cerbydau yn torri lawr, ayyb), ond credwn hyd orau ein gallu ein bod wedi lleihau'r risgiau hynny gymaint ag sy'n bosibl. Mae cerbydau sbâr, trefniadau sefyll mewn pellach, cytundebau dwyochrog gyda chynghorau eraill ynghylch cyflenwadau halen ymhlith y trefniadau hyn.

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Briffyrdd 1980

| | |
|-----------------------------------|---|
| Adroddiad i'r: | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 25ain Hyfref 2012 |
| Aelod Arweiniol / Swyddog: | Stuart Davies, Cyd-Bennaeth Priffyrdd a Seilwaith |
| Awdur yr Adroddiad: | Tim Towers, Rheolwr Adran (Gwasanaethau Rhwydwaith) |
| Teitl: | Cynnydd ar Waith Cynnal a Chadw Cyfalaf ar y Priffyrdd |

1. Beth yw byrdwn yr adroddiad?

Cyflwyno manylion y cynnydd hyd yma gyda rhaglen cynnal a chadw'r priffyrdd a rhaglen o waith i'r dyfodol.

2. Pam cyflwyno'r adroddiad hwn?

Bwriad yr adroddiad yw diweddarau'r Aelodau ar gynnydd gyda rhaglen 2012/13 ac amlinellu sut byddwn yn datblygu'r flaenraglen waith ar gyfer 2013 / 14.

3. Beth yw'r argymhellion?

Bod yr Aelodau'n cydnabod y cynnydd hyd yma a chadarnhau bod y strategaeth arfaethedig at y dyfodol yn dderbyniol.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Cynnydd gyda rhaglen gynnal a chadw gyfalaf 2012/13

4.1.1 Gan fod gwella cyflwr ei ffyrdd yn parhau i fod yn flaenoriaeth, mae Sir Ddinbych wedi ymrwymo £1,400,000 yn 2012 / 2013 gyda'r bwriad penodol o dargedu'r ffyrdd yn y sir a oedd yn achosi'r cwynion neu'r risgiau posibl mwyaf. At hyn mae dyraniad hefyd o £2,022,000 trwy gyfrwng Blaengaredd Benthycu Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru (LGBI) ac eleni mae hyn wedi ei ganolbwyntio'n bennaf ar ffyrdd A a B yn y sir. Mae'r rhaglen gyfan hefyd yn gysylltiedig â'r angen i ddelio â materion penodol a adnabuwyd fel rhan o'r arolygon mwy technegol a wnawn megis SCRIM sy'n asesiad o wrthiant sgidio.

4.1.2 Rhannwyd y gwaith ailwynebu yn dri prif gategori arferol sef ailwynebu bitwminaid traddodiadol, micro-asffalt a Gorchudd Arwyneb. Mae'r ail ddau yn weithrediadau sy'n cael eu heffeithio gan y tywydd ac mae angen eu gwneud yn ystod misoedd sychach a chynhesach yr haf. Mae eleni wedi bod yn arbennig o anodd i'n contractwyr, ond maent

wedi medru gweithio o gwmpas y glaw ac wedi cwblhau'r rhaglenni gorchudd arwyneb a micro-asffalt. Mae'r cynlluniau'n cynnwys :-

Gorchudd Arwyneb

A542 Penyclawdd i Fryn Golau, Llandegla
A525 Tro Pennant Isaf, Nant y Garth
A525 Cyffordd Ty Newydd i Kynnaid, Llanfair D. C.
A525, Llanfair Dyffryn Clwyd i Ruthun
A525 Fferm Glan Aber i Lanrhaeadr
A525 Trefnant i Dyddyn Lunt
A547 Clwb Golff Gallt Melyd
Ffordd Eglwys Wen, Dinbych
Pengwern, Llangollen
Erw Deg, Llangollen
Cyffordd Talyrnau i Wenallt
Llanfwrog i Bontuchel
Ffordd Ysgol Llantysilio
Sun Inn, Llandysilio

Nodyn Roedd yn fwriad gennym roi gorchudd arwyneb ar y B5382 Dinbych i Henllan, ond roedd hyn yn amhosibl oherwydd gwaith parhaus Dŵr Cymru yn y cyffiniau. Caiff hyn nawr ei roddi ar raglen 2013 / 2014.

Micro-asffalt

A525 Llysfasi
A542 Pentre Bwlch i Afon Alyn, Llandegla
A542 Pen y Clawdd i Plantation, Pentredwr
A5104 Cyffordd Jordans i Bentre Isaf, Bryneglwys
B5437 o'r A5 i Garrog.
Gellifor i'r B5429
Pentref Gellifor
Clocaenog i Glawddnewydd
Clocaenog i Bontuchel
A494 i Lanelidan
A494 i Faeshafn

Nodyn Oherwydd bod peiriannau'r contractwyr yn rhy drwm i groesi Pont Dyfrdwy, nid oedd modd gosod micro-asffalt ar ddarn Pentref Carrog ac mae hyn nawr hefyd wedi ei ddodi ar raglen 2013 / 14 er mwyn medru defnyddio peiriannau llai.

- 4.1.3 Ar wahân i'r uchod, rydym hefyd wedi bod yn brysur gyda'r rhaglen ailwynebu. Y cynllun mwyaf o bell ffordd i'w gwblhau hyd yma oedd ailwynebu darn cyfan Sir Ddinbych y B4391 yn ne-orllewin y sir. Roedd y llwybr hwn yn gofyn am gymysgedd o ailadeiladu llawn ac ailwynebu a chymerwyd y cyfle hefyd i ledu'r ffordd i ryw raddau. Roedd hwn yn brosiect cymhleth gan fod y ffordd yn ddolen hanfodol o'r Bala i ganolbarth Cymru ac roedd angen gwneud nifer o newidiadau i'r

contract er mwyn delio ag anghenion defnyddwyr y ffordd. Cwblhawyd y gwaith ddiwedd Awst.

4.1.4 Yn ychwanegol at yr uchod, cwblhawyd gwaith hefyd ar :-

Rhodfa'r Gorllewin, y Rhyl
B5381 Ffordd Glascoed, Llanelwy
B4501 Bryn Glas i Fwlch Du, Nantglyn
B4501 Peniel, Dinbych
Betws Gwerful Goch
A548 Ffordd yr Arfordir, y Rhyl

4.2 *Gwaith Rhaglen*

4.2.1 Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae cynlluniau ar y gweill yn:

North Avenue ym Mhrestatyn
Stryd Fawr Prestatyn
A5104 rhwng Rhydtalog a Llandegla.
Motts Lane, Gellifor

Dros weddill y flwyddyn ariannol hon, rydym wedi cynnwys y cynlluniau sydd ar ôl, oddeutu deuddeg o ran nifer yn amrywio o ddarnau o Marsh Road yn y Rhyl, trwodd i waith proffil uchel ar yr A525 yn Rhuthun ac ailwynebu Bryneglwys a Derwen.

Rydym cyn cyflawni'r rhaglen ac o fewn y gyllideb.

4.3 *Pontydd a Strwythurau*

4.3.1 Unwaith eto, mae'r tywydd gwael wedi amharu ar y gwaith ar rai o'r pontydd, yn bennaf oherwydd lefelau dŵr uchel yn rhwystro gwaith yn yr afonydd a'r nentydd i ddelio â phroblemau sgwrio. Caiff hyn nawr ei wneud yn 2013 / 14.

4.3.2 Fel arall fodd bynnag cafwyd cynnydd da ac mae cynlluniau naill ai wedi eu cwblhau, ar y safle ar hyn o bryd, neu byddant yn cael eu cwblhau yn y flwyddyn ariannol hon. Mae'r rhain yn cynnwys:

Gwaith Cryfhau

- **Pont Glan Y Wern** – Cwblhawyd, o fewn y gyllideb
- **Pont Eyarth Uchaf** – Cwblhawyd, o fewn y gyllideb
- **Pont Reilffordd Berwyn** – Gwaith a gynlluniwyd yn unol â'r rhaglen ar gyfer cychwyn Tachwedd 2012 a Mawrth 2013
- **Cwlfert Redwood Drive**– Ar y safle ar hyn o bryd, tybir y bydd y costau o fewn y gyllideb

- **Pont Reilffordd Llannerch**– aros am ganiatâd adeilad rhestredig. Gwaith wedi ei ailraglennu ar gyfer Chwefror / Mawrth 2013
- **Pont Llwyn Onn** – Yn unol â'r rhaglen ar gyfer Mawrth 2013.
- **A525 Pont Elwy** – Cynllun prawf cryfhau i'w gwblhau ym mis Tachwedd 2012. Arolwg laser wedi ei drefnu ar gyfer Rhagfyr i gofnodi gwaith a dadansoddi os oes erydiad pellach wedi bod, ers yr arolwg yn yr haf. Cais Caniatâd Heneb Gofrestredig i gryfhau'r bwa canolog i'w gwblhau yn Ionawr 2013.

Gwaith ailwampio

- **Pont Foryd** – Prosiect peintio / trwsio gwaith metel ar y safle ar hyn o bryd, pythefnos yn hwyr ar hyn o bryd, dyddiad cwblhau tebygol Tachwedd 2012 nawr.
- **Pont Cilan** – Gwaith pwyntio i'r aradeiledd wedi ei gwblhau, caniatâd heneb gofrestredig yn cael ei baratoi ar hyn o bryd. Mae'r cynllun cryfhau y tu allan i gwmpas cyllideb eleni.
- **Pont Ruffydd, Pont Dafydd a Phont Cynwyd Dyfrdwy** – Methu â gwneud gwaith sgwrio oherwydd lefelau dŵr uchel yn ystod yr haf. Caiff deunyddiau eu caffael gan ragweld lefelau dŵr is yr haf nesaf.
- **Bontuchel** – Prosiect gwrth-ddŵr wedi ei gwblhau, o fewn y gyllideb.
- **Bontuchel Bach** – Prosiect gwrth-ddŵr, ar y rhaglen ar gyfer Chwefror 2013.

4.4 *Rhaglen Gynnal a Chadw Gyfalaf 2013/14*

- 4.4.1 Rydym nawr yn y cyfnod cynnar o ddatblygu rhaglen y flwyddyn nesaf, ond rydym yn gweithio'n gyflym i benderfynu'n derfynol ar y rhaglen, gyda'r nod o wneud hyn erbyn Ionawr 2013. Bydd gwaith y flwyddyn nesaf unwaith eto'n cael ei ariannu ar y cyd rhwng y LGBTI a dyraniad o adnoddau Sir Ddinbych ei hun, felly ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar gyllid dangosol o ryw £3.5 miliwn ar gyfer y rhaglen gyfan (gan gynnwys pontydd a goleuadau stryd). Er mwyn cydymffurfio gyda gofynion cyllid LGBTI mae angen i ni gyflwyno rhaglen fanwl i Lywodraeth Cymru erbyn Rhagfyr 2012.
- 4.4.2 Hyd yma, rydym wedi cynhyrchu ein rhestr drafft ni o waith a hefyd wed gofyn am farn a sylwadau Cyngorau Tref a Chymuned ledled y sir, er mwyn iddynt gael cyfle i'n hysbysu o'u barn a'u pryderon hwy.
- 4.4.3 Y cam nesaf yw paratoi rhaglen ddrafft i'w hystyried yng nghyfarfod y Grŵp Buddsoddi Strategol ym mis Hydref.
- 4.4.4. Y cam olaf o ran datblygu'r rhaglen yw bod swyddogion priffyrdd yn mynychu chwe chyfarfod Grwpiau Aelodau Ardal ym mis Tachwedd fel bod yr Aelodau etholedig yn cael cyfle i drafod yr amrywiol opsiynau. O ganlyniad nid ydym eto yn y sefyllfa lle medrwn ddod â rhestr benodol i'r cyfarfod hwn.

4.4.5 Pan gaiff ei phenderfynu'n derfynol, anfonir y rhaglen at holl aelodau etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned ac fe'i rhoddir ar y wefan. Anfonir adroddiadau monitro yn fisol trwy'r llwybrau hyn. Bydd unrhyw gynlluniau arwyddocaol canol tref neu waith proffil uchel arall yn cael ei anfon ar wahân i grwpiau busnes lleol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'n flaenoriaeth gwasanaeth bod trigolion ac ymwelwyr yn Sir Ddinbych yn cael rhwydwaith ffyrdd diogel, wedi ei chynnal yn dda, a gall buddsoddiad o'r math hwn ond gwella'r amcan hwn.

6. Pa ymgynghori a fu?

Fel yr amlinellwyd uchod, mae datblygu'r rhaglen yn destun ymgynghoriad eang gydag ystod o gyrff perthnasol.

7. Datganiad y Prif Swyddog Ariannol

Ymddengys bod y rhaglen, yn fras, yn unol â'r targedau. Dylid cynnwys costau'r prosiectau uchod o fewn y dyraniadau cyfalaf ar gyfer 2012/13. Gydag unrhyw brosiectau sy'n llithro, dylai'r cyllid lithro hefyd.

8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y medrwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r prif risgiau sy'n gysylltiedig â'r math hwn o waith yn ymwneud â sicrhau bod contractwyr gyda'r cymwysterau addas ar gael ac y gellir rheoli costau. Trwy gael rhaglen yn ei lle yn ddigon cynnar medrwn drafod yn fanwl gyda'n contractwyr er mwyn medru ymgymryd â'r rhaglen yn effeithiol. Defnyddir Contractau Fframwaith i gaffael y contractwyr hyn er mwyn sicrhau gwerth am arian, a thu hwnt i hynny byddwn yn monitro yn ofalus fel bod pwysau chwyddiant y tu hwnt i'n rheolaeth (e.e. cynnydd ym mhris bitwmen) yn medru cael eu hystyried a'u rheoli.

9. Pŵer i gymryd y Penderfyniad

Deddf Priffyrdd 1980

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|-----------------------------------|---|
| Adroddiad i: | Y Pwyllgor Archwilio Cymunedau |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 25 Hydref 2012 |
| Aelod Arweiniol / Swyddog: | Stuart Davies, Pennaeth ar y Cyd Priffyrdd a Seilwaith |
| Awdur yr Adroddiad: | Tim Towers, Rheolwr Adain (Gwasanaethau Rhwydwaith) |
| Teitl: | Gwaith Mawr Seilwaith Trafnidiaeth |

1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Bwriad yr adroddiad yw hysbysu'r Aelodau am y dulliau, a ffynonellau posibl, o gael arian ar gyfer buddsoddi mewn gwaith seilwaith mawr o fewn Sir Ddinbych.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod yr Aelodau'n nodi rhan y Cyngor mewn datblygu seilwaith strategol.

4. Manylion yr adroddiad

- 4.1.1 Cynllun TAITH, Trafnidiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, yw'r peirianwaith ar gyfer nodi, datblygu a darparu cynlluniau seilwaith mawr ar gyfer trafniadaeth. Daeth i fodolaeth yn 2009 yn lle'r hen Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol unigol a oedd yn cael eu paratoi gan awdurdodau lleol. Bwrdd trafniadaeth ar y cyd yw TAITH yn cynnwys chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru. Mae Sir Ddinbych yn cael ei chynrychioli ar y corff hwn gan yr Aelod Arweiniol dros Fannau Cyhoeddus a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio Cymunedau.

Mae nifer o amcanion a blaenoriaethau polisi trafniadaeth yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ac mae'n cyd-fynd â'r amcanion yn Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Er bod yr amcanion a'r blaenoriaethau hyn yn eithaf eang, maen nhw'n rhoi pwyslais penodol ar fwy o ddefnydd o gludiant teithwyr a cherdded a beicio fel dulliau teithio.

Mae cyllid cyfalaf ar gael bob blwyddyn ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, sef Grant Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae TAITH yn didoli bidiau am y Grant Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol o'r chwe awdurdod fel rhan o'r broses fidio flynyddol a hefyd y bidiau

am brosiectau ar raddfa Ranbarthol. Mae'r olaf fel arfer yn gysylltiedig â mentrau Cludiant Teithwyr. Mae'n rhaid i bob prosiect sy'n derbyn Grant Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol fod yn y rhaglen Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Mae pob prosiect sydd yn y rhaglen wedi'i asesu'n annibynnol i gadarnhau ei fod yn cydfynd ag amcanion a blaenoriaethau polisi trafndiaeth y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Os nad yw brosiectau'n cydfynd â'r polisi trafndiaeth yna, nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y rhaglen.

- 4.1.2 Fel arfer, mae tua £4.5 miliwn o Grant Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gael i ranbarth TAITH bob blwyddyn, er mae'n debyg y bydd y ffigwr hwn yn gostwng i lai na £4.0 miliwn yn y flwyddyn neu ddwy nesaf.

Mae rhwng £600,000 a £900,000 y flwyddyn wedi'i ddyrannu i Sir Ddinbych ers sefydlu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol. Enghreifftiau o brosiectau Sir Ddinbych sydd wedi'u cyllido o Grant Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw:

Gorsaf Fysiau Prestatyn
Gorsaf Fysiau'r Rhyl
Maes Parcio Gorsaf Reilffordd Prestatyn
Llwybr Beicio Dyffryn Dyfrdwy
Llwybrau Beicio Rhuthun

Yn amlwg, nid yw'r lefelau o gyllid sydd ar gael i awdurdodau unigol trwy'r Grant Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol yn ddigon i gyllido prosiectau trafndiaeth mawr, megis ffyrdd osgoi. Problem arall yw nad yw cynlluniau ffyrdd osgoi yn tueddu i sgorio'n arbennig o uchel wrth gael eu hasesu yn erbyn amcanion polisi trafndiaeth.

Mae yna rai enghreifftiau diweddar o Lywodraeth Cymru yn cyllido prosiectau ffyrdd osgoi. Mae hynny oherwydd bod y prosiectau hynny'n cael eu hystyried o bwysigrwydd cenedlaethol a hefyd yn rhannol oherwydd bod y prosiectau ar gyfnodau datblygu sydd eisoes wedi derbyn ymrwymiad.

7. Pa ymgynghori a wnaed?

Ymgynghorwyd yn eang wrth ddatblygu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol gydag ystod eang o randdeiliaid. Roedd hynny'n cynnwys cyflwyno papurau i'r cyn Bwyllgor Archwilio Amgylchedd ar ddau wahanol achlysur.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae TAITH yn ffynhonnell bwysig o gyllid i'r Cyngor ac efallai y daw'n bwysicach yn y dyfodol wrth i waith rhanbarthol gynyddu. Mae'n bwysig fod

aelodau'n deall ei rôl a sut y gallai Sir Ddinbych gael y budd mwyaf posibl o fod yn rhan ohono.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'n rhaid i bob prosiect sy'n cael ei gyllido gan Grant Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol fod â methodoleg rheoli prosiect cadarn i sicrhau fod unrhyw risgiau cysylltiedig â phrosiectau unigol yn cael eu rheoli'n briodol. Bydd risgiau o'r fath yn cael eu rheoli ar sail penodol i brosiect.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|-----------------------------------|--|
| Adroddiad i: | Y Pwyllgor Archwilio Cymunedau |
| Dyddiad y Cyfarfod: | 25 Hydref 2012 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Y Cyngorydd David Smith / Paul Mead |
| Awdur yr Adroddiad: | Paul Mead |
| Teitl: | Dod â Chynllunio'n Nes at y Gymuned |

1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Bydd yr adroddiad yn egluro sut mae'r Cyngor, fel Awdurdod Cynllunio Lleol, yn cydymffurfio â'i waith statudol o reoli datblygu. Bydd yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau statudol y Cyngor i ymgynghori gyda phartion â diddordeb ar geisiadau cynllunio a bydd yn cynnig awgrymiadau ynghylch sut y gellid gwella'r broses o ymgynghori a chysylltu gyda'r nod o ddod â chynllunio'n nes at y gymuned.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad yn cyflwyno gwybodaeth i'r Aelodau ar y ffordd y mae'r tŷm Datblygu Rheoli a Chydymffurfio yn ymgynghori ac yn cysylltu â'r gymuned ar gynigion cynllunio ac er mwyn clywed awgrymiadau'r Pwyllgor ar unrhyw welliannau angenrheidiol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cyflwyno sylwadau ar y trefniadau arfaethedig ar gyfer datblygu cysylltiadau agosach rhwng y gymuned leol a gwaith yr adran Reoli Datblygu a Chydymffurfiad Cynllunio.

4. Manylion yr adroddiad

Gofynion Statudol i roi Cyhoeddusrwydd i Geisiadau Cynllunio

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 yn dangos y gofynion statudol sydd ar Awdurdod Cynllunio Lleol i roi gwybod i bobl ynghylch ceisiadau cynllunio. Mae'r gofynion ynghylch cyhoeddusrwydd yn Rhan 12 y Gorchymyn. Mae detholiad perthnasol o'r Gorchymyn hwn ynghlwm yn **Atodiad 1**.

Yn fyr, mae gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol gyhoeddi rhai ceisiadau cynllunio ac mae'n gallu gwneud felly trwy osod hysbysiadau ar y safle, mewn papur lleol neu drwy anfon llythyrau'n uniongyrchol at berchenogion neu ddeiliaid cyfagos. Mae'r gofynion yn amrywio yn ôl y gwahanol fathau o geisiadau cynllunio ac mae'r Gorchymyn hefyd yn dangos sut y dylai

Awdurdod Cynllunio Lleol ddefnyddio'i wefan i dynnu sylw pobl at gais cynllunio.

Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn i'r Awdurdod Cynllunio Lleol anfon llythyrau i **berchnogion neu ddeiliaid cyfagos** ynghylch unrhyw safle datblygu arfaethedig. Felly, yn gyfreithiol, does ond rhaid i'r Awdurdod Cynllunio Lleol anfon llythyrau at berchenogion neu ddeiliaid tir sydd ar gyffiniau'r safle. Nid oes gan gymdogion sy'n byw y tu hwnt i hynny (e.e. ar ochr arall y ffordd), hawl, o angenrheidrwydd, i gael llythyr ymgynghori ffurfiol.

Rhoddir hysbysiadau ar safle ac yn y wasg fel arfer ar gyfer ceisiadau datblygu mawr neu gynigion a allai fod yn groes i Bolisiau sydd wedi'u mabwysiadu yn y Cynllun. Dylid arddangos hysbysiadau am o leiaf 21 diwrnod.

Fel arfer, mae llythyrau ymgynghori i berchnogion neu ddeiliaid cyfagos, Cynghorau Tref a Chymuned neu ymgynghoreion statudol eraill yn caniatáu **14 diwrnod** o ddyddiad y llythyr ar gyfer cyflwyno sylwadau.

Mae ymgynghoreion statudol ar gyfer ceisiadau cynllunio'n gallu cynnwys, ymysg eraill, Cynghorau Tref a Chymuned, yr Awdurdod Prifffyrdd Lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Ymgynghori a Chyfathrebu Presennol Sir Ddinbych

O gofio am y sefyllfa statudol sy'n cael ei chrybwyll uchod, mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol wedi tueddu i fod yn fwy hyblyg. Er enghraifft, byddwn yn tueddu i anfon llythyrau ymgynghori ar geisiadau cynllunio (ble bo'n rhesymol) i bobl eraill heblaw'r perchenogion neu'r deiliaid cyfagos e.e. byddwn yn ymgynghori â chymdogion dros y ffordd a allai gael eu heffeithio gan y datblygiad arfaethedig. Byddwn hefyd yn tueddu i ganiatáu **21 diwrnod** ac nid 14 diwrnod i drigolion a Chynghorau Tref / Cymuned gyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio.

Byddwn yn anfon datganiadau i'r wasg (yn ôl yr angen) ynghylch ceisiadau mawr ac yn sicrhau fod hysbysiadau yn cael eu gosod o gwmpas y safle datblygu. O ran cydlynu â Chynghorau Tref a Chymuned, rydym wedi gweithredu dogfen Brothocol ers dros dair blynedd. Mae hon ynghlwm fel **Atodiad 2**. Rydym yn gwerthfawrogi rôl y Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses gynllunio a bydd Swyddogion yn cydlynu â'r Cynghorau yn ystod cwrs ceisiadau cynllunio. Byddwn yn ymweld â'u cyfarfodydd Cynllunio ac yn cynnig hyfforddiant ar faterion cynllunio gydol y flwyddyn.

O ganlyniad i hynny, mae'r ffigyrau'n dangos fod dros 90% o'r penderfyniadau ceisiadau cynllunio yn y pendraw yn cyd-fynd ag argymhellion y Cynghorau Tref neu Gymuned.

Mae yna gostau ynghlwm ag ymgynghori ar geisiadau cynllunio. Mae'r rhain yn cynnwys yr hysbysebion y mae'n rhaid eu gosod yn y wasg, paratoi a gosod hysbysiadau ar safle ac anfon llythyrau at y bobl a allai gael eu

heffeithio gan y cais. Bydd crynodeb o'r costau hyn dros y ddwy flynedd diwethaf yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor.

Yn amlwg, po fwyaf o rybuddion a llythyrau sy'n cael eu hanfon i'r gymuned y mwyaf yw costau hynny i'r gwasanaeth. Gellir trafod y cynnydd yn y costau a sut i'w rheoli yng nghyfarfod y Pwyllgor.

Safonau Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgynghori Arfaethedig ar gyfer y Dyfodol

Mae'r tîm Rheoli Datblygu a Chydymffurfiad eisiau datblygu eu gwasanaeth cyfathrebu ac ymgynghori ymhellach gyda'r gymuned ar geisiadau cynllunio. Gyda hynny mewn golwg, rydym wedi cynhyrchu canllawiau gwybodaeth drafft sy'n dangos y safonau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer y tîm. Mae ynghlwm fel **Atodiad 3**. Bydd y canllawiau'n cael eu cyflwyno er gwybodaeth i'r Pwyllgor Cynllunio cyn gofyn am benderfyniad dirprwyedig yr Aelod Arweiniol i gyflwyno'r canllawiau.

5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae ymgynghori ar geisiadau cynllunio yn ddyletswydd statudol. Fodd bynnag, bydd datblygu'r safonau sy'n cael eu dangos yn y ddogfen hon a'i hatodiadau yn cyfrannu at ddod â'r Cyngor yn nes at ei gymuned.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Gallai mân gostau ychwanegol godi drwy ymestyn ymgynghori a chyfathrebu, rhagor o amser Swyddogion a phostio mwy o lythyrau. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd hynny'n arwyddocaol a bydd yn cael ei gynnwys yn y cyllidebau presennol.

7. Pa ymgynghori a wnaed?

Dim

8. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Dim.

9. Yr Hawl i Benderfynu

Mae'r hawl i gymryd penderfyniadau ar geisiadau cynllunio'n dod o dan ddarpariaethau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

(7) Y ceisiadau a ragnodir at ddibenion paragraff (c) o'r diffiniad o "owner" yn adran 65(8) o Ddeddf 1990 yw ceisiadau mwynau, a'r mwynau a ragnodir at ddibenion y paragraff hwnnw yw unrhyw fwynau ac eithrio olew, nwy, glo, aur neu arian.

(8) Yn yr erthygl hon—

ystyr "ceisiadau mwynau" ("*minerals applications*") yw ceisiadau am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n cynnwys ennill a gweithio mwynau;

ystyr "hysbysiad gofynnol" ("*requisite notice*") yw hysbysiad yn y ffurf briodol a bennir yn Atodlen 2 neu ffurf sylweddol gyffelyb o ran ei heffaith, ond ni fydd yn cynnwys hysbysiad a gyflwynir gan ddefnyddio cyfathrebiad electronig; ac

ystyr "tenant" ("*tenant*") yw tenant amaethyddol fel y diffinnir "agricultural tenant" yn adran 65(8) o Ddeddf 1990, o dir y mae unrhyw ran ohono'n gynnwysedig yn y tir y mae cais yn ymwneud ag ef.

Tystysgrifau mewn perthynas â hysbysiadau o geisiadau am ganiatâd cynllunio

11.—(1) Pan wneir cais am ganiatâd cynllunio rhaid i'r ceisydd ardystio, mewn ffurf a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru neu ffurf sylweddol gyffelyb o ran ei heffaith, bod gofynion erthygl 10 wedi eu bodloni.

(2) Os bydd gan geisydd achos i ddibynnu ar baragraff (5) o erthygl 10, rhaid i'r dystysgrif ddatgan yr amgylchiadau perthnasol.

Cyhoeddusrwydd i geisiadau am ganiatâd cynllunio

12.—(1) Rhaid i awdurdod cynllunio lleol y gwneir cais iddo am ganiatâd cynllunio roi cyhoeddusrwydd i'r cais yn y modd a ragnodir gan yr erthygl hon.

(2) Yn achos cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad—

- (a) sy'n gais AEA a gyflwynir ynghyd â datganiad amgylcheddol;
- (b) nad yw'n cydweddu â darpariaethau'r cynllun datblygu sydd mewn grym yn yr ardal lle mae'r tir yr ymwneir ag ef yn y cais; neu
- (c) a fyddai'n effeithio ar hawl tramwy y mae Rhan 3 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (hawliau tramwy cyhoeddus)(1) yn gymwys iddi,

(1) 1981 p.69; gweler adran 66. Ceir diwygiadau i Ran 3 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(7) The applications prescribed for the purposes of paragraph (c) of the definition of "owner" in section 65(8) of the 1990 Act are minerals applications, and the minerals prescribed for the purposes of that paragraph are any minerals other than oil, gas, coal, gold or silver.

(8) In this article—

"minerals applications" ("*ceisiadau mwynau*") means applications for planning permission for development consisting of the winning and working of minerals;

"requisite notice" ("*hysbysiad gofynnol*") means notice in the appropriate form set out in Schedule 2 or in a form substantially to the like effect, but will not include notice served using electronic communications; and

"tenant" ("*tenant*") means an agricultural tenant as defined in section 65(8) of the 1990 Act, of land any part of which is comprised in the land to which an application relates.

Certificates in relation to notices of applications for planning permission

11.—(1) Where an application for planning permission is made, the applicant must certify, in a form published by the Welsh Ministers or in a form substantially to the like effect, that the requirements of article 10 have been satisfied.

(2) If an applicant has cause to rely on paragraph (5) of article 10, the certificate must state the relevant circumstances.

Publicity for applications for planning permission

12.—(1) An application for planning permission must be publicised by the local planning authority to which the application is made, in the manner prescribed by this article.

(2) In the case of an application for planning permission for development which—

- (a) is an EIA application accompanied by an environmental statement;
- (b) does not accord with the provisions of the development plan in force in the area in which the land to which the application relates is situated; or
- (c) would affect a right of way to which Part 3 of the Wildlife and Countryside Act 1981 (public rights of way)(1) applies,

(1) 1981 c.69; see section 66. There are amendments to Part 3 which are not relevant to this Order.

rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais yn y modd a bennir ym mharagraff (3).

(3) Rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i gais sy'n dod o fewn paragraff (2) ("cais paragraff (2)") drwy roi hysbysiad gofynnol—

- (a) drwy arddangos ar y safle mewn o leiaf un man ar neu gerllaw'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, am gyfnod o ddim llai nag 21 diwrnod; a
- (b) drwy gyhoeddi'r hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymdogaeth lle mae'r tir yr ymwneir ag ef yn y cais.

(4) Yn achos cais am ganiatâd cynllunio nad yw'n gais paragraff (2), os yw'r datblygiad arfaethedig yn ddatblygiad mawr, rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais drwy roi hysbysiad gofynnol—

- (a) (i) drwy arddangos ar y safle mewn o leiaf un man ar neu gerllaw'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, am gyfnod o ddim llai nag 21 diwrnod; neu
- (ii) drwy gyflwyno'r hysbysiad i unrhyw berchennog neu feddiannydd cyffiniol; a
- (b) drwy gyhoeddi'r hysbysiad mewn papur newydd sy'n cylchredeg yn y gymdogaeth lle mae'r tir yr ymwneir ag ef yn y cais.

(5) Mewn achos nad yw paragraff (2) na pharagraff (4) yn gymwys iddo, rhaid rhoi cyhoeddusrwydd i'r cais drwy roi hysbysiad gofynnol—

- (a) drwy arddangos ar y safle mewn o leiaf un man ar neu gerllaw'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef, am gyfnod o ddim llai nag 21 diwrnod; neu
- (b) drwy gyflwyno'r hysbysiad i unrhyw berchennog neu feddiannydd cyffiniol.

(6) Os caiff hysbysiad ei dynnu ymaith, ei guddio neu'i ddifwyno cyn bo'r cyfnod o 21 diwrnod y cyfeirir ato ym mharagraff (3)(a), (4)(a)(i) neu (5)(a) wedi dod i ben, a hynny pan nad oedd bai ar yr awdurdod cynllunio lleol na bwriad ganddo i wneud hynny, rhaid trin yr awdurdod fel pe bai wedi cydymffurfio â gofynion y paragraff perthnasol, os cymerodd gamau rhesymol i ddiogelu'r hysbysiad ac i'w ailosod pe bai angen.

(7) Pan fo awdurdod cynllunio lleol yn cynnal gwefan at y diben o roi cyhoeddusrwydd i geisiadau am ganiatâd cynllunio, rhaid cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol ar y wefan—

- (a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig;
- (b) disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig;
- (c) erbyn pa ddyddiad y bydd rhaid gwneud unrhyw sylwadau, sef dyddiad na chaiff fod yn gynharach na diwrnod olaf y cyfnod o 14 diwrnod sy'n cychwyn gyda'r dyddiad y cyhoeddir yr wybodaeth;
- (ch) ymhle a pha bryd y ceir archwilio'r cais; a

the application must be publicised in the manner specified in paragraph (3).

(3) An application falling within paragraph (2) ("a paragraph (2) application") must be publicised by giving requisite notice—

- (a) by site display in at least one place on or near the land to which the application relates, for not less than 21 days; and
- (b) by publication of the notice in a newspaper circulating in the locality in which the land to which the application relates is situated.

(4) In the case of an application for planning permission which is not a paragraph (2) application, if the development proposed is major development the application must be publicised by giving requisite notice—

- (a) (i) by site display in at least one place on or near the land to which the application relates for not less than 21 days; or
- (ii) by serving the notice on any adjoining owner or occupier; and
- (b) by publication of the notice in a newspaper circulating in the locality in which the land to which the application relates is situated.

(5) In a case to which neither paragraph (2) nor paragraph (4) applies, the application must be publicised by giving requisite notice—

- (a) by site display in at least one place on or near the land to which the application relates for not less than 21 days; or
- (b) by serving the notice on any adjoining owner or occupier.

(6) Where the notice is, without any fault or intention of the local planning authority, removed, obscured or defaced before the period of 21 days referred to in paragraph (3)(a), (4)(a)(i) or (5)(a) has elapsed, the authority will be treated as having complied with the requirements of the relevant paragraph if they have taken reasonable steps to protect the notice and, if need be, replace it.

(7) Where the local planning authority maintain a website for the purpose of publicising applications for planning permission the following information must be published on the website—

- (a) the address or location of the proposed development;
- (b) a description of the proposed development;
- (c) the date by which any representations about the application must be made, which must not be before the last day of the period of 14 days beginning with the date on which the information is published;
- (d) where and when the application may be inspected; and

(d) sut y gellir gwneud sylwadau ynglŷn â'r cais.

(8) Os bydd yr awdurdod cynllunio lleol wedi methu â bodloni gofynion yr erthygl hon mewn perthynas â chais am ganiatâd cynllunio ar yr adeg yr atgyfeirir y cais at Weinidogion Cymru o dan adran 77 o Ddeddf 1990 (atgyfeirio ceisiadau at yr Ysgrifennydd Gwladol)(1) neu y gwneir unrhyw apel i Weinidogion Cymru o dan adran 78 o Ddeddf 1990 (hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau cynllunio a methiant i wneud penderfyniadau o'r fath)(2), bydd yr erthygl hon yn parhau'n gymwys fel pe na bai'r cyfryw atgyfeiriad neu apel i Weinidogion Cymru wedi ei wneud.

(9) Os yw paragraff (8) yn gymwys, pan fydd yr awdurdod cynllunio lleol wedi bodloni gofynion yr erthygl hon, rhaid iddo hysbysu Gweinidogion Cymru ei fod wedi gwneud hynny.

(10) Yn yr erthygl hon—

ystyr "hysbysiad gofynnol" ("*requisite notice*") yw hysbysiad yn y ffurf briodol a bennir yn Atodlen 3 neu ffurf sylweddol gyffelyb o ran effaith; ac

ystyr "perchennog neu feddiannydd cyffiniol" ("*adjoining owner or occupier*") yw unrhyw perchennog neu feddiannydd unrhyw dir cyffiniol i'r tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

(11) Mae paragraffau (1) i (6) yn gymwys i geisiadau a wneir i Weinidogion Cymru o dan adran 293A o Ddeddf 1990 (datblygiad brys y Goron: gwneud cais)(3) fel pe bai'r cyfeiriadau at awdurdod cynllunio lleol yn gyfeiriadau at Weinidogion Cymru.

Hysbysiad o atgyfeirio ceisiadau at Weinidogion Cymru

13. Wrth atgyfeirio unrhyw gais at Weinidogion Cymru o dan adran 77 o Ddeddf 1990 (atgyfeirio ceisiadau at yr Ysgrifennydd Gwladol) yn unol â chyfarwyddyd i'r perwyl hwnnw, rhaid i awdurdod cynllunio lleol gyflwyno i'r ceisydd hysbysiad sydd—

- yn nodi telerau'r cyfarwyddyd ac unrhyw resymau a roddir gan Weinidogion Cymru dros ei ddyroddi;
- yn datgan bod y cais wedi ei atgyfeirio at Weinidogion Cymru; ac
- yn cynnwys datganiad y bydd Gweinidogion Cymru, os yw'r ceisydd yn dymuno hynny, yn rhoi cyfle i'r ceisydd ymddangos gerbron person a benodir gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw a chael ei glywed ganddo, ac y

(e) how representations may be made about the application.

(8) If the local planning authority have failed to satisfy the requirements of this article in respect of an application for planning permission at the time the application is referred to the Welsh Ministers under section 77 of the 1990 Act (reference of applications to Secretary of State)(1) or any appeal to the Welsh Ministers is made under section 78 of the 1990 Act (right to appeal against planning decisions and failure to take such decisions)(2), this article will continue to apply as if such referral or appeal to the Welsh Ministers had not been made.

(9) Where paragraph (8) applies, when the local planning authority have satisfied the requirements of this article, they must inform the Welsh Ministers that they have done so.

(10) In this article—

"adjoining owner or occupier" ("*perchennog neu feddiannydd cyffiniol*") means any owner or occupier of any land adjoining the land to which the application relates; and

"requisite notice" ("*hysbysiad gofynnol*") means notice in the appropriate form set out in Schedule 3 or in a form substantially to the like effect.

(11) Paragraphs (1) to (6) apply to applications made to the Welsh Ministers under section 293A of the 1990 Act (urgent Crown development: application)(3) as if the references to a local planning authority were references to the Welsh Ministers.

Notice of reference of applications to the Welsh Ministers

13. On referring any application to the Welsh Ministers under section 77 of the 1990 Act (reference of applications to Secretary of State) pursuant to a direction in that behalf, a local planning authority must serve on the applicant a notice—

- setting out the terms of the direction and any reasons given by the Welsh Ministers for issuing it;
- stating that the application has been referred to the Welsh Ministers; and
- containing a statement that the Welsh Ministers will, if the applicant so wishes, afford to the applicant an opportunity of appearing before and being heard by a person appointed by the Welsh Ministers for the

(1) Diwygiwyd adran 77 gan adran 32 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p.34) a pharagraff 18 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, ac adran 40(2)(d) o Ddeddf 2004.

(2) Diwygiwyd adran 78 gan adran 17(2) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p.34) ac adrannau 40(2)(c) a 43(2) o Ddeddf 2004.

(3) Mewnosodwyd adran 293A gan adran 82(1) o Ddeddf 2004.

(1) Section 77 was amended by section 32 of, and paragraph 18 of Schedule 7 to, the Planning and Compensation Act 1991 (c.34), and section 40(2)(d) of the 2004 Act.

(2) Section 78 was amended by section 17(2) of the Planning and Compensation Act 1991(c.34) and sections 40(2)(e) and 43(2) of the 2004 Act.

(3) Section 293A was inserted by section 82(1) of the 2004 Act.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

TÎM RHEOLI DATBLYGU A CHYDYMFFURFIO

PROTOCOL CYSYLLTU Â CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn anelu i fod yn awdurdod rhagorol o ran darparu gwasanaethau cynaliadwy, effeithlon, o'r radd flaenaf i'w holl ddinasyddion a chymunedau erbyn 2012. Un o'r ffyrdd mae'r Tîm Rheoli Datblygu a Chydymffurfio yn bwriadu cyflawni hyn yw drwy sicrhau rhagor o gysylltu gyda Chyngorau Tref a Chymuned.

Mae'r protocol hwn yn nodi canllawiau clir ar gyfer y cydgysylltu rhwng swyddogion yn y Tîm Rheoli Datblygu a Chydymffurfio ("y Tîm") a'r Chyngorau Tref a Chymuned o'r cam cyn cyflwyno cais i'r cam delio â materion ar ôl y penderfyniad. Drwy ddilyn y camau yn y protocol hwn gwnawn lunio cyswllt agosach rhwng y Tîm Rheoli Datblygu a Chydymffurfio a'r gymuned leol drwy well cyfathrebu. Bydd gwella'r cyfathrebu yn golygu bod y Cyngor yn deall anghenion y cymunedau dan sylw yn well, a bydd y Chyngorau Tref a Chymuned hefyd yn elwa o well gwybodaeth a dealltwriaeth am y canllawiau y mae swyddogion yn gorfod eu dilyn wrth ystyried ceisiadau cynllunio yn eu cymunedau lleol.

1. CYN CYFLWYNO CAIS

- 1.1 Weithiau ceir achlysuron lle mae datblygwr/ymgeisydd yn cysylltu â'r Tîm gyda'r nod o drafod rhinweddau datblygiad cyn cyflwyno cais.

Ni all y Cyngor drafod y math hwn o ymholiad â thrydydd parti bob amser gan fod natur yr ymholiadau yn gyfrinachol gan amlaf.

Gwnaiff y Cyngor geisio dod â'r datblygwr a'r gymuned leol ynghyd lle bynnag y bo modd drwy wella cyfathrebu a dealltwriaeth am y broses gynllunio.

Ni fyddai cyswllt anffurfiol buan yn niweidio hawl y Cyngor Tref neu Gymuned i fynegi barn os a phan y cyflwynir cais. Nid yw'n gwarantu y gellir datrys yr holl faterion lleol cyn derbyn y cais ychwaith.

Beth all y Cyngor Tref neu Gymuned ei ddisgwyl gan Gyngor Sir Ddinbych

- 1.1.1 *Bydd y Tîm yn gofyn am ganiatâd y datblygwr arfaethedig i gysylltu gyda'r Cyngor Tref neu Gymuned yn anffurfiol i'w gynghori am fanylion unrhyw drafodaethau arwyddocaol cyn cyflwyno cais.*
- 1.1.2 *Bydd y Tîm yn annog y datblygwr potensial i roi cyflwyniad i'r Cyngor Tref neu Gymuned lle bo'n briodol.*

Beth hoffai Cyngor Sir Ddinbych gan y Cyngor Tref neu Gymuned

- 1.1.3 *Adborth anffurfiol am unrhyw ymgynghoriad cyn cyflwyno cais, gan wneud awgrymiadau sut i wella'r cynllun a thynnu sylw at ystyriaethau lleol perthnasol.*

2. PAN GYFLWYNIR CAIS

- 2.1 Bydd y Tîm yn ymgynghori'n ffurfiol gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned ynghylch yr holl geisiadau cynllunio perthnasol yn eu hardal. Bydd yr ymatebion a dderbynnir yn cael eu cadw ar y ffeil, a'u nodi yn llawn yn unrhyw adroddiad cynllunio a rhoir ystyriaeth i'r materion a nodwyd wrth wneud penderfyniad.
- 2.2 Y cyfnod statudol uchafswm ar gyfer derbyn ymateb gan Gyngor Tref neu Gymuned ynghylch cais cynllunio a/neu gais arall yw 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr neu'r neges e-bost a anfonwyd i'r Gyngor Tref neu Gymuned perthnasol.
- 2.3 Y swyddog achos sy'n delio â mwyafrif y ceisiadau dan ein Cynllun Dirprwyo*. Mae'r swyddog achos yn ysgrifennu adroddiad, a fydd yn cynnwys ymateb y Gyngor Tref neu Gymuned. Fodd bynnag, os ceir gwrthwynebiad gan y Gyngor Tref neu Gymuned a bod y swyddog achos o blaid rhoi caniatâd cynllunio, mae'r Cynllun Dirprwyo yn nodi bod rhaid i'r cais fynd gerbron y Pwyllgor Cynllunio. Unwaith eto mae'r ymateb yn cael ei gynnwys yn llawn yn adroddiad y swyddog achos i'r Pwyllgor Cynllunio. Edrychwch ar ein Cynllun Dirprwyo i gael y manylion llawn.
- 2.4 Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau na wneir penderfyniad dan y pwerau dirprweidg cyn derbyn ymateb gan y Gyngor Tref neu Gymuned perthnasol.
- 2.5 Bydd y Tîm yn hysbysu'r Cynghorau Tref a Chymuned am eitemau potensial i ddod gerbron y Pwyllgor Cynllunio, fel bo'r gymuned yn ymwybodol o geisiadau a allai fod o ddiddordeb yn lleol. Fe wnawn ni geisio sicrhau tryloywder llwyr yn y broses gynllunio bob amser, a hysbysu'r Cynghorau Tref a Chymuned a yw'n ofynnol gwneud penderfyniad ar geisiadau yn y Pwyllgor Cynllunio.
- 2.6 Os gwnaed cais i siarad yn y Pwyllgor, anfonir yr holl ddogfennau perthnasol cyn dyddiad y Pwyllgor Cynllunio fel bo'r siaradwr yn ymwybodol o'r drefn.
- 2.7 Fe wnawn ni ddarparu unrhyw ddogfennau ychwanegol a gynhrychir ar ôl cwblhau adroddiad y swyddog. Yn arferol mae dogfennau o'r fath yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio ar ffurf taflen sylwadau hwyr (taflen las).
- 2.8 Ni fydd siaradwyr o blith y cyhoedd ar gyfer pob cais, ac yn arferol ni fyddem yn darparu rhagor o fanylion onibai y gofynnwyd i ni wneud hynny.

Serch hynny, bydd y Tîm yn ceisio darparu rhagor o wybodaeth i'r Cynghorau Tref a Chymuned am geisiadau sydd wedi bod i'r Pwyllgor Cynllunio, gan mai'r rhain sy'n tueddu bod yn fwy dadleuol neu lle bo nifer o bryderon lleol wedi'u mynegi.
- 2.9 Weithiau bydd penderfyniad terfynol y Pwyllgor Cynllunio yn unol ag argymhelliad y Gyngor Tref neu Gymuned, ond nid ymhob achos. Mewn amgylchiadau o'r fath fe wnawn ni ddarparu mwy o wybodaeth ar ôl cyfarfod y Pwyllgor perthnasol, er mwyn i'r Gyngor Tref neu Gymuned ddeall y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad.
- 2.10 Er mwyn sicrhau tryloywder llwyr fe wnawn ddarparu copiâu o unrhyw gytundebau cyfreithiol yn achos y ceisiadau hynny lle roedd yn ofynnol ymrwymo i ymrwymiad cyfreithiol cyn y gellid rhyddhau'r hysbysiad o benderfyniad.

Beth all y Cyngor Tref neu Gymuned ei ddisgwyl gan Gyngor Sir Ddinbych

- 2.10.1 *Fe wnawn anfon llythyr ymgynghori, yn cynnwys copïau o'r cynlluniau a'r dogfennau perthnasol yn brydlon yn dilyn cyflwyno cais dilys. Gallwn wneud hyn ar ffurf copi caled neu'n electronig.*
- 2.10.2 *Ein nod fydd bod yn sympathetig ac ystyriol pan na all Cyngor Tref neu Gymuned ymateb yn unol â'r amserlen berthnasol. Fodd bynnag, cofiwch mai cyfnod cyfyngedig sydd gan y swyddogion i wneud penderfyniad ynghylch ceisiadau, felly bydd hyn yn cyfyngu ar am ba hyd y gallant aros am ymateb.*
- 2.10.3 *Os na dderbyniwyd unrhyw ymateb ar yr adeg y gellir gwneud penderfyniad dirprwyedig bydd y swyddog achos yn dilyn yr holl gamau rhesymol i gysylltu gyda'r Clerc i ganfod pam na chafwyd ymateb. Gall hyn fod oherwydd nad oedd amseriad cyfarfod y Cyngor Tref neu Gymuned yn cyd-fynd ag amserlen cyflwyno'r cais. Mewn achosion o'r fath byddwn yn sicrhau ein bod yn ystyried hyn wrth benderfynu a ellir cyflwyno penderfyniad ai peidio.*
- 2.10.4 *Byddwn yn sicrhau bod Clerc y Cyngor Tref neu Gymuned priodol yn derbyn y rhestr yn nodi darpar eitemau'r Pwyllgor Cynllunio ar yr amser priodol, a'u hysbysu bod ganddynt gyfle i siarad yn y Pwyllgor. Gwneir hyn tua pythefnos cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio, a bydd yn cynnwys crynodeb byr o'r materion cynllunio perthnasol sy'n berthnasol i'r cais.*
- 2.10.5 *Fe wnawn ymdrech i ymdrin â'r materion cynllunio perthnasol a nodwyd gan y Cyngor Tref neu Gymuned wrth lunio ein hadroddiadau ac wrth wneud penderfyniad a gwnawn ddarparu rhagor o eglurhad ynghylch materion cynllunio, lle bo angen.*
- 2.10.6 *Fe wnawn ddarparu copi o'r adroddiad i'r Pwyllgor a'r daflen sylwadau hwyr ynghyd â chopi o'r hysbysiad o benderfyniad pan fo penderfyniad y Pwyllgor yn mynd yn groes i argymhelliad y Cyngor Tref neu Gymuned.*
- 2.10.7 *Pan fo hysbysiad o benderfyniad yn cael ei ryddhau ar ôl arwyddo cytundeb, fe wnawn ni anfon copi o'r ymrwymadau cyfreithiol Adran 106 i'r Cyngor Tref neu Gymuned perthnasol.*

Beth hoffai Cyngor Sir Ddinbych gan y Cyngor Tref neu Gymuned

- 2.10.8 *Hoffai'r Swyddog Achos gael ymateb ysgrifenedig gan y Cyngor Tref neu Gymuned gynted ag y bo modd. Gwerthfawrogid petai blaenlythrennau'r swyddog achos yn cael eu nodi wrth yr eitem berthnasol yn yr ymateb.*
- 2.10.9 *Dylai'r ymateb ystyried polisiau perthnasol Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych (sydd ar gael ym mhob un o'r llyfrgelloedd lleol ac ar wefan Cyngor Sir Ddinbych) a dylai dynnu sylw at unrhyw faterion neu bryderon lleol nad ydynt o bosibl yn amlwg i'r swyddog achos.*
- 2.10.10 *Petai'r Cyngor Tref neu Gymuned yn cael anhawster ymateb yn unol â'r amserlen berthnasol dylai'r Clerc gysylltu gyda'r swyddog achos gynted ag y bo modd i esbonio'r rheswm am yr oedi. (Manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.)*
- 2.10.11 *Gallai methu â gofyn am estyniad i'r cyfnod amser ar gyfer ymateb arwain at benderfynu ar gais cynllunio dan ein Cynllun Dirprwyo heb dderbyn ymateb gan y Cyngor Tref neu*

Gymuned.

- 2.10.12 *Mae'r ceisiadau mwy dadleuol yn medru arwain at adroddiad swmpus gan y swyddog. Felly gofynnwn am ymatebion cryno sy'n ymwneud â'r pryderon lleol, gan y bydd adroddiad y swyddog achos yn delio â'r materion polisi yn drwyadl. Bydd hyn yn sicrhau peidio ag ailadrodd yr un materion, ac yn gwneud yr adroddiadau yn haws i'r darllynydd eu darllen a'u deall.*
- 2.10.13 *Petai'r Clerc o'r farn bod pryderon sylweddol ynghylch cais dylai'r Clerc gysylltu â'r swyddog achos mor fuan â phosibl er mwyn trafod y materion. Gallai'r Clerc gael barn y swyddog achos, a chanfod a fydd y cais yn cael ei benderfynu dan y Cynllun Dirprwyo neu gan y Pwyllgor Cynllunio. Os bydd yn mynd gerbron y Pwyllgor Cynllunio efallai y bydd y Clerc yn teimlo y dylid gofyn am slot er mwyn i rywun siarad yn y Pwyllgor Cynllunio i amlinellu'r pryderon.*
- 2.10.14 *Ar ôl derbyn rhestr eitemau'r Pwyllgor dylai'r Clerc ddsbarthu'r ddogfen i'r Aelodau. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cysylltu mor fuan ag y bo modd os yw unrhyw Aelodau yn dymuno siarad yn y Pwyllgor yn unol â'r Protocol Siaradwyr Cyhoeddus yn y Pwyllgor Cynllunio.*

3. AR ÔL GWNEUD PENDERFYNIAD

- 3.1 Bydd y swyddogion achos yn sicrhau ymgynghori â'r Cyngor Tref neu Gymuned perthnasol ynghylch unrhyw 'gymeradwyo amodau' perthnasol, un ai ar gais i'r perwyl hynny neu oherwydd arwyddocad y mater.

Beth all y Cyngor Tref neu Gymuned ei ddisgwyl gan Gyngor Sir Ddinbych

- 3.1.1 *Fe wnawn anfon copiâu o'r holl dystysgrifau penderfyniad perthnasol i'r Cyngor Tref neu Gymuned a fydd yn rhestru'r amodau a roddwyd ar y caniatâd cynllunio.*

Petai'r swyddog achos yn derbyn cais yn gofyn am beidio â gweithredu amod a osodwyd yn flaenorol sy'n debygol o effeithio ar y gymuned leol, yna cynhelir ymgynghoriad gyda'r Cyngor Tref neu Gymuned. Bydd hyn yn rhoi 14 diwrnod i'r Cyngor Tref neu Gymuned wneud sylwadau am y manylion a gyflwynwyd.

Beth hoffai Cyngor Sir Ddinbych gan y Cyngor Tref neu Gymuned

- 3.1.2 *Er nad oes amserlen gaeth o ran cymeradwyo amodau, ein nod yw eu cymeradwyo gynted ag y bo modd felly gwerthfawrogir ymateb prydlon.*
- 3.1.3 *Disgwyliwn i'r Clerc dynnu sylw ei Aelodau i'r holl hysbysiadau o benderfyniad i sicrhau tynnu sylw'r swyddog achos perthnasol at unrhyw amodau a allai effeithio ar faterion lleol. Bydd hyn yn sicrhau y gellir cysylltu gyda neu ymgynghori â'r Cyngor Tref neu Gymuned pan dderbynnir dogfennau yn gofyn am gymeradwyo'r amod perthnasol.*

4. HYFFORDDIANT YNGHYLCH MATERION CYNLLUNIO I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

- 4.1 Ein nod yw dod â'r Cyngor yn nes at y gymuned drwy gynnal sesiynau hyfforddiant/cydgysylltu rheolaidd gyda'r Cyngor Tref neu Gymuned. Bydd hyn yn caniatáu deialog ddwy ffordd ac yn sicrhau bod y Cynghorau Tref a Chymuned a'r Cyngor Sir yn deall yr heriau sy'n wynebu'r naill a'r

llall wrth ystyried ceisiadau cynllunio.

Beth all y Cyngor Tref neu Gymuned ei ddisgwyl gan Gyngor Sir Ddinbych

- 4.1.1 *Fe wnawn ni ddarparu pedair sesiwn hyfforddiant y flwyddyn. Bydd pob un o'r sesiynau mewn gwahanol leoliadau yn y sir i'w gwneud yn hygyrch i bawb.*
- 4.1.2 *Os yw unrhyw Gyngor Tref neu Gymuned yn teimlo y byddent yn elwa o hyfforddiant ar bwnc penodol sy'n effeithio ar eu hardal leol, fe wnawn ymdrechu i ddarparu'r hyfforddiant yna yn ychwanegol at y pedair sesiwn a drefnir yn arferol.*
- 4.1.3 *Fe wnawn geisio ymateb yn gadarnhaol i geisiadau i Uwch Swyddogion o'r Tîm Rheoli Datblygu a Chydymffurfio fod yn bresennol yng nghyfarfod cynllunio unrhyw Gyngor Tref neu Gymuned, lle bo'n ddichonadwy.*

Beth hoffai Cyngor Sir Ddinbych gan y Cyngor Tref neu Gymuned

- 4.1.4 *Yn arferol rydyn ni'n awgrymu cyfyngu'r sesiynau i'r Clerc ac efallai un aelod arall o'r Cyngor Tref neu Gymuned. Os na all y Clerc fod yn bresennol rydyn ni'n fodlon i aelod arall ddod i'r sesiwn ar eu rhan. Cynhelir y sesiynau er budd y Cynghorau Tref a Chymuned. Mae eich presenoldeb a'ch adborth chi yn werthfawr iawn i'n cynorthwyo ni i wella ein gwasanaeth.*

5. MONITRO DATBLYGIADAU A HYSBYSU AM DORRI RHEOLAU CYNLLUNIO

- 5.1 Ar ôl rhoi caniatâd ar gyfer math o ddatblygiad mae'n bosibl bod amodau cynllunio neu gytundebau cyfreithiol penodol y bydd yn ofynnol eu monitro i sicrhau bod y datblygiad yn bwrw ymlaen fel y'i cymeradwywyd. Tîm bach ydyn ni ac er ein bod yn ymdrechu i fonitro'r prif gynlluniau bob amser nid yw'n bosibl monitro'r holl safleoedd datblygu bob tro. Y nod yw y bydd gwell cyfathrebu rhwng y Cyngor Sir a Chynghorau Tref neu Gymuned yn galluogi monitro safleoedd yn wella. Mae'r adran Cynllunio hefyd yn gyfrifol am ymchwilio i achosion posibl o dorri rheolau cynllunio (h.y. rhywun yn gwneud rhywbeth heb ganiatâd cynllunio). Unwaith eto, gallai gwella'r cydgysylltu gyda Chynghorau Tref a Chymuned gynorthwyo â'r broses hon, oherwydd yn aml bydd Cynghorau Tref a Chymuned yn medru tynnu sylw at achosion o'r fath cyn i'r Cyngor Sir ddod yn ymwybodol ohonynt.

Beth all y Cyngor Tref neu Gymuned ei ddisgwyl gan Gyngor Sir Ddinbych

- 5.1.1 *Fe wnawn ddarparu copi o'r hysbysiadau o benderfyniad i'r holl Gynghorau Tref neu Gymuned i sicrhau bod y gymuned leol yn llwyr ymwybodol o'r amodau a osodwyd gan yr Awdurdod Lleol ar ganiatâd cynllunio penodol.*
- 5.1.2 *Bydd y swyddogion Cydymffurfio yn ymchwilio i'r holl achosion o dorri rheolau cynllunio a nodir gan Gynghorau Tref a Chymuned, gan ystyried yr adnoddau a'r blaenoriaethau ar adeg yr ymchwiliad, a byddant yn darparu adborth am eu canfyddiadau.*

Beth hoffai Cyngor Sir Ddinbych gan y Cyngor Tref neu Gymuned

- 5.1.3 *Mae'r Cyngor Tref neu Gymuned yn medru gweithredu fel llygaid neu glustiau'r Tîm Rheoli Datblygu a Chydymffurfio yn aml. Dylid hysbysu'r Tîm yn ysgrifenedig am unrhyw achosion potensial o dorri rheolau cynllunio neu beidio â chydymffurfio â chaniatâd*

cynllunio (gweler y manylion cyswllt).

- 5.2 Os nad yw datblygiad yn digwydd ar safle, er gwaethaf cael caniatâd cynllunio, gall hyn achosi hagru gweledol yn y gymuned.
- 5.3 Bydd y Cyngor Sir yn gweithio gyda pherchennog y tir/datblygwr a'r Cyngor Tref neu Gymuned i sicrhau bod y safle yn parhau yn dderbyniol yn weledol yn y tymor byr i'r tymor canolig, neu nes y gellir bwrw ymlaen â'r datblygiad. Cyflwynir camau gorfodi perthnasol lle gellir profi bod golwg y datblygiad yn achosi niwed arwyddocaol.

Beth all y Cyngor Tref neu Gymuned ei ddisgwyl gan Gyngor Sir Ddinbych

- 5.3.1 *Fe wnawn ymchwilio i'r holl opsiynau y gall y tîm eu defnyddio i geisio ymdrin â'r sefyllfa. Mae'r pwerau gorfodi yn gyfyngedig mewn sefyllfaoedd lle rhoddwyd caniatâd ond nad yw wedi'i weithredu yn llawn. Serch hynny, fe wnaiff y Tîm gysylltu gyda'r datblygwr i geisio datrys y sefyllfa, ac fe wnaiff roi diweddariadau i'r Cyngor Tref neu Gymuned ynghylch y dull gweithredu sy'n ofynnol.*

Beth hoffai Cyngor Sir Ddinbych gan y Cyngor Tref neu Gymuned

- 5.3.2 *Byddai hysbysu am effeithiau negyddol posibl safle neu adeilad yn y gymuned yn gynnar yn galluogi'r Tîm Rheoli Datblygu a Chydymffurfio i lunio cynllun gweithredu i ddelio gyda'r niwed potensial hwn. Cysylltwch ag un o'r Swyddogion Cydymffurfio Cynllunio. Rhestrir y manylion cyswllt isod.*

6. Y BROSES APÊL CYNLLUNIO

- 6.1 Yn y rhan fwyaf o achosion mae gan yr ymgeisydd yr hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod caniatâd cynllunio cyn pen chwe mis o wrthod y cais. Cyflwynir apêl o'r fath i'r Arolygiaeth Gynllunio a gall fod ar ffurf cyfnewid datganiadau ysgrifenedig, gwrandawriad anffurfiol neu ymchwiliad cyhoeddus. Byddai'r Cyngor Tref neu Gymuned wedi gwneud sylwadau am y cais cynllunio gwreiddiol ac, yn dibynnu ar natur y datblygiad arfaethedig, efallai y byddai'n dymuno chwarae rhan weithgar yn y broses apêl. Yn ddiamau bydd materion lleol a allai fod wedi bod yn hanfodol bwysig wrth benderfynu gwrthod y cais yn berthnasol yn y broses apêl. Bydd Arolygwyr Cynllunio yn cymryd sylw o sylwadau Cyngor Tref neu Gymuned yn ystod apêl cynllunio, ac er mwyn amddiffyn penderfyniad y Cyngor mewn modd cynhwysfawr mae'n bwysig rheoli'r cydgysylltu rhwng y Cyngor Sir a'r Cyngor Tref neu Gymuned yn gywir.

Beth all y Cyngor Tref neu Gymuned ei ddisgwyl gan Gyngor Sir Ddinbych

- 6.1.1 *Byddwn yn cysylltu gyda'r Cyngor Tref neu Gymuned perthnasol i'w hysbysu y derbyniwyd cais am apêl cynllunio, ac yn rhoi copi o'r hysbysiad o benderfyniad perthnasol.*
- 6.1.2 *Petai'r Cyngor Tref neu Gymuned perthnasol yn dymuno cymryd rhan yn y broses apêl cynllunio bydd y swyddog achos apêl yn eu cynnwys yn y cyfarfodydd cyn yr apêl ac yn anfon unrhyw ddatganiadau a dogfennau perthnasol sy'n ymwneud â'r achos iddynt. Yna gall cynrychiolydd y Cyngor Tref neu Gymuned fod yn bresennol yn yr apêl cynllunio gan roi tystiolaeth briodol lle bo angen i amddiffyn achos y Cyngor Sir.*

Beth hoffai Cyngor Sir Ddinbych gan y Cyngor Tref neu Gymuned

6.1.3 *Petai'r Cyngor Tref neu Gymuned yn dymuno mynegi barn yn yr apêl cynllunio dylid cysylltu gyda'r swyddog achos ar unwaith ar ôl derbyn hysbysiad y cyflwynwyd apêl. Dylai'r Cyngor Tref neu Gymuned gael ei arwain gan y swyddog achos o ran y ffordd orau o gefnogi achos y Cyngor Sir, gan dynnu sylw at y dystiolaeth benodol sy'n ofynnol. Mae'n bosibl y bydd y Cyngor Tref neu Gymuned yn dymuno ysgrifennu i'r Arolygiaeth Gynllunio er mwyn amddiffyn y rheswm/rhesymau am wrthod caniatâd.*

